- Trwyddedu/Cofrestru; Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bwriad o gyflwyno gweithdrefn cofrestru/trwyddedu gorfodol ar gyfer darparwyr llety gwyliau.

Daethpwyd i'r casgliad fod angen gweithredu ar becyn o fesurau rheoli er mwyn sicrhau llwyddiant yr amcan ehangach a geisir ei gyflawni sef ceisio gwyrdroi sgil effeithiau cartrefi gwyliau ar gymunedau a sicrhau tegwch a chyfleoedd i drigolion Gwynedd.

Y gobaith yw y bydd cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn sicrhau gwell rheolaeth o'r defnydd a wneir o dai preswyl a thrwy hynny sicrhau fod yna ddarpariaeth briodol o dai ar gael i ddiwallu anghenion lleol. Yn dilyn asesu'r opsiynau, daethpwyd i'r casgliad mai'r trywydd gweithredu a ddylid cynnig ei ddilyn oedd cyflwyno'r Cyfarwydd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gyfan. Trwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer yr ardal gyfan gobeithir ei fod yn sicrhau fod mwynderau holl drigolion y sir yn cael ei warchod, gan gynnwys yr unigolion hynny sydd â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Byddai hefyd yn sicrhau fod gweledigaeth ac amcanion ystod o strategaethau a pholisïau perthnasol, yn derbyn ystyriaeth wrth asesu priodoldeb y darpar ddatblygiad (yn unol â'r arweiniad polisi cynllunio lleol). Nodir fod y polisïau a'r strategaeth hyn hefyd wedi bod yn destun Asesiad Effaith perthnasol. Ymhellach nodir y byddai'r ymdriniaeth yma o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn sicrhau nad oes amheuaeth ynglŷn â'r ardal ddaearyddol ble gweithredir yr ymyrraeth, ac yn sicrhau fod trigolion y sir gyfan yn destun yr un ymyrraeth/gwarchodaeth.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ystyrir fod y dystiolaeth sydd wedi ei gasglu yn wydn ac yn addas ei bwrpas. Mae rhai o'r sylwadau wedi adnabod effaith andwyol tybiedig y bwriad a chan hynny mae ymdrech wedi ei wneud i geisio ymateb i'r pryderon hyn.

Mae'r 'Adroddiad Ymgysylltu Cyhoeddus: Cyfnod Ymgysylltu Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4' yn darparu'r wybodaeth mewn perthynas â'r dystiolaeth bellach sydd wedi ei gasglu.

Mae cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y diben dan sylw yn ddigynsail a chan hynny mae'n anodd dod i gasgliad diamheuol ynglŷn ag effaith y bwriad. Os bydd y cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau fe fydd angen sicrhau fod yna fframwaith fonitro priodol mewn lle a fydd yn er mwyn gallu monitro effaith y gweithrediad.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?	Safbwynt y Cyngor
Cyffredinol	-	Noder fod y sylwadau isod yn uniongyrchol deillio o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu (cwestiwn 2).	Bydd cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn caniatáu rheolaeth cynllunio a olygai fod rhaid dilyn y camau hanfodol er mwyn gallu ymgymryd â'r newid defnydd, hynny yw, bydd rhaid cyflwyno a derbyn hawl cynllunio ar gyfer y bwriad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn gysylltiedig â chyflwyno'r cais cynllunio fe fydd cyfnod o ymgysylltu a'r sawl a effeithir. Golygai hynny y bydd cyfle i unrhyw berson gyflwyno sylwadau parthed y bwriad. Mae'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn:- • lleihau'r tebygolrwydd o wahaniaethu a achosir pan nad oes gan aelodau o'r cyhoedd wybodaeth am newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw neu'n teimlo nad oes gennym y gallu i ddylanwadu; • caniatáu ymgynghori a chanfod barn y rhai sy'n cael eu heffeithio. Ymhellach mae'n fwriad gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol gan olygu fod y gweithrediad yn debyg ym mhob ardal.

Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a hil (gan gynnwys cenedligrwydd):** • Ystyriwyd y byddai'n rhoi cyfle i bawb fyw yn eu cymunedau - beth bynnag fo eu cefndir. • Wrth i'r boblogaeth barhaol yn yr ardal fynd yn fwy Saesnig, mae'n debyg y byddai pobl o gefndiroedd gwahanol yn cael ei denu i fyw yn yr ardal a fydd yn golygu gwell cymysgedd diwylliannol a lleihau hiliaeth.	Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau rhesymol yn ôl yr angen. Prif nod yr ymyrraeth yw ceisio sicrhau fod yna reolaeth well yn y defnydd o wneir o dai ac mewn canlyniad fod yna ddarpariaeth o dai yn bodoli i ddiwallu anghenion unigolion sydd yn chwilio am gartref. Fel rhan o'r broses ymgysylltu bydd y dogfennau perthnasol a fydd yn cael ei baratoi er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau yn nodi'n glir fod posib i unigolion dderbyn y ddogfennaeth mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol. Gall y bwriad gael effaith ar y farchnad dai, gan achosi prisiau is, fydd yn effeithio pobl leol gyda chartref yn yr ardal ynghyd â phobl sydd ag ail gartrefi neu lety gwyliau. Gall fod o fantais felly i bobl sydd eisiau prynu tai yn yr ardal, boed y rheini yn bobl leol, pobl sydd eisiau dychwelyd i'r ardal neu bobl o ardaloedd / gwledydd eraill. Wedi dweud hynny, disgwylir peth sgil effaith negyddol hefyd, fydd yn effeithio'n arbennig ar drigolion lleol oherwydd bydd cyfyngu ar hawl presennol perchnogion i ddefnyddio eu tŷ preswyl er dibenion gwyliau yn cael ei ddiddymu. Ymhellach gall yr ymyrraeth fod yn rhwystr i unigolion sydd yn dymuno buddsoddi yn y farchnad tai gwyliau, boed yn lleol neu beidio.
	Negyddol	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a hil (gan gynnwys cenedligrwydd):** • Mae'n debygol o greu cymunedau rhanedig ble mae pobl sydd ddim yn frodorol Cymraeg neu yn gallu siarad Cymraeg yn teimlo'n anghyfforddus ac wedi ei gwahanu o'r gymuned. • Mae'n fath o lanhau ethnig. • Bwriad yn gwbl hiliol, creu rhwyg rhwng y Saeson a Chymru. • Bwriad yn senoffobig. • Achosi gwahaniaethu ymysg yr hil Gymraeg sydd yn cynrychioli mwyafrif y perchnogion tai yng Ngwynedd. • Atal pobl o Loegr rhag cael mynediad i lety fforddiadwy yn hiliol. • Mae'n hanfodol sicrhau nad yw unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor yn gwahaniaethu neu yn cyfyngu opsiynau tai i bobl o gefndiroedd hil wahanol. Dylai parhau hefo egwyddorion cydraddoldeb fod yn flaenoriaeth. • Nid yw'r papur cyfiawnhad yn rhoi sylw dyledus i effaith y bwriad i bobl o gefndiroedd gwahanol (tu hwnt i Gymry).	

		• Lleihau'r posibilrwydd o bobl o dramor yn dod i fyw yn yr ardal a chreu cymunedau a phoblogaeth amrywiol. Ni fyddai'n wir adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan.	
Anabledd	Positif	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud ac anabledd:** • Bydd hyn yn cael effaith fanteisiol ar rwydweithiau cefnogol i bobl fregus gan y bydd yn darparu mwy o gyfle i bobl yn y rhwydweithiau cefnogol hynny i aros yn agos. • Sicrhau darpariaeth ddigonol o dai i bobl â gofynion anabledd penodol. • Mae rhai sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu yn aml angen rhwydwaith cefnogaeth a/neu wasanaethau Cymraeg felly mae'n hanfodol eu bod yn gallu cystadlu yn y farchnad tai ac aros yn lleol. • Mae llety gwyliau yn cael effaith ar amwynder preswyl trigolion cyfagos a chan hynny yn effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl.	Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau rhesymol yn ôl yr angen. Prif nod yr ymyrraeth yw ceisio sicrhau fod yna reolaeth well yn y defnydd o wneir o dai ac mewn canlyniad fod yna ddarpariaeth o dai sydd yn bodoli i ddiwallu anghenion unigolion sydd yn chwilio am gartref. Mae'n bosib y bydd yna effaith ar y farchnad dai, yn golygu y bydd prisiau tai yn gostwng. Gallai hyn olygu y bydd mwy o bobl anabl mewn sefyllfa i allu prynu tŷ addas, neu fod a mwy o arian ar ôl ei brynu i wneud addasiadau. Dylid nodi fod teuluoedd ag aelod anabl yn ystadegol yn fwy tebygol o brofi tlodi ariannol na theuluoedd heb aelod anabl (A yw Cymru'n Decach, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol tud 60). Yn ystod y broses ymgysylltu gyhoeddus fe nodwyd yn glir fod y deunydd perthnasol er mwyn gallu cyflwyno sylwadau ar gael mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol. Pe bai prisiau tai yn gostwng gall hefyd achosi effeithiau negyddol. Gall fod yna achosion ble fo unigolyn wedi penderfynu addasu ei dŷ preswyl er mwyn ei wneud yn addas i'w anghenion hwy a hynny'n seiliedig ar sicrhau fod y buddsoddiad yn ei addasu yn mynd i gael ei adfer yng ngwerth yr eiddo. Gall y penderfyniad i fuddsoddi fod wedi ei wneud pan fo gwerth yr eiddo yn uwch, pan nad oedd
	Negyddol	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud ac anabledd:** • Bydd y bwriad yn achosi caledi ariannol fydd yn effeithio ar iechyd meddwl personol. • Bydd rhai pobl ag anableddau'n ddibynnol ar yr ecwiti yn eu cartref i dalu am anghenion meddygol a gofal parhaus. Bydd lleihau'r ecwiti hwn yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor/y GIG dalu am y costau ychwanegol hyn yn y pendraw. • Efallai y byddai unigolyn ag anabledd yn dymuno symud i fyw at deulu i gael cymorth gyda'u gofal. Byddai troi eu heiddo'n lety gosod tymor byr yn helpu i ariannu'r costau gofal parhaus.	

		• Gallai gorfodi Erthygl 4 greu rhwystrau'n anfwriadol a llesteirio mynediad i unigolion ag anableddau. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan y cyngor yn peri anffafriaeth nac yn cyfyngu ar ddewisiadau tai iddynt. Dylai cynnal cydraddoldeb a chynhwysiant fod yn flaenoriaeth. • Mae angen darpariaeth briodol o lety addas i unigolion ag anableddau. • Os oes effaith ar y sector cyhoeddus, bydd yna lai o gyfleoedd i unigolion ag anableddau weithio. • Byddai'r gwrthanogaeth i berchnogion gynnig llety gwyliau o bosib yn golygu y byddai yna lai o lefydd i bobl anabl fwynhau gwyliau wrth yr arfordir. Yn aml, mae gwestai neu sefydliadau Gwely a Brecwast yn anaddas ac maent yn dymuno cael preifatrwydd ei llety eu hunain, a bydd Erthygl 4 yn gwneud hyn yn anos.	unrhyw gyfyngiad yn bodoli ar y defnydd a ellir ei wneud o'r tŷ preswyl. Gan hynny, yn sgil yr ymyrraeth (cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4) mae yna risg o golledion ariannol ar gyfer achosion o'r fath. Ymhellach, mae posibilrwydd y bydd yno lai o ddarpariaeth o lety gwyliau yn bodoli a thrwy hynny llai o gynigion yn bodoli o ran llety gwyliau sydd yn cyfarch anghenion unigolion ag amhariadau penodol.
Rhyw	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a rhyw:** Dim sylw penodol wedi codi.	Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau rhesymol yn ôl yr angen.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a rhyw:** • Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar ferched. Mae twristiaeth yn creu nifer o swyddi sy'n aml yn caniatáu hyblygrwydd o ran amseroedd ysgol. • Mae'r gymuned unedau gosod tymor byr yng Ngwynedd yn un amrywiol tu hwnt, ac mae dros ddau draean o westeiwyr Airbnb yn ferched. • Mae mwy o ferched yn gweithio yn y sector twristiaeth oherwydd y mathau o swyddi sydd ar gael ac oherwydd yr hyblygrwydd i weithio o amgylch amseroedd ysgol. Mae mwy o ferched yn debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol.	

Oedran	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud ac oedran:** • Mae'n fanteisiol o ran rhoi cyfleon i bobl ifanc fyw a dychwelyd i fyw yn eu cymunedau gan na fyddem yn cael ei prisio allan o'r farchnad dai. • Mae byw wrth ymyl llety gwyliau yn gallu cael effaith ar bobl hyn gan wneud iddynt deimlo'n bryderus.	Prif nod yr ymyrraeth yw ceisio sicrhau fod yna reolaeth well yn y defnydd o wneir o dai ac mewn canlyniad fod yna ddarpariaeth o dai yn bodoli i ddiwallu anghenion unigolion sydd yn chwilio am gartref. Ar gyfartaledd mae 65% o aelwydydd Gwynedd wedi ei brisio allan o'r farchnad dai. Mae'r canran hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd gan olygu fod unigolion sydd yn dymuno cael ar y farchnad dai yn ei chael yn anodd gwneud hynny. Yn aml bobl ifanc sydd yn wynebu'r her hyn. Gobeithir gan hynny y bydd yr ymyrraeth hon yn cael effaith bositif ar yr unigolion hynny, ac ar unigolion o bob oed. Pe tai gostyngiad mewn prisiau tai yn sgil cyhoeddi Erthygl 4 gallai hynny gael effaith negyddol anghymesur ar bobl hŷn os ydynt yn bwriadu gwerthu'r cartref teuluol er mwyn prynu tŷ llai er mwyn rhyddhau ecwiti neu er mwyn ariannu eu gofal.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud ac oedran:** • Mae'n debygol o gael effaith negyddol ddifrifol ar y sawl sy'n dibynnu ar ecwiti i dalu am gartrefi gofal, gweithwyr gofal neu i symud i gartref llai. Bydd hyn yn arwain at gynyddu'r baich ar y wladwriaeth/Gwasanaethau'r Cyngor. • Bydd hyn hefyd yn effeithio ar deuluoedd Cymraeg yn dod i'r ardal fyddai'n mynychu ysgolion lleol. • Bydd y rhai ifanc yn gadael Cymru a bydd dyfodol yr iaith Gymraeg yn mynd gyda hwy. • Bydd y sawl sy'n nesu at oed ymddeol yn cael eu heffeithio'n galed gan y byddai eu hunig fuddsoddiad yn lleihau'n ariannol (mwy o effaith economaidd-gymdeithasol). • Ni fydd yn helpu prif breswylwyr iau i gael troed ar yr ysgol dai oherwydd y bydd yr eiddo sydd ar gael yn parhau i fod yn rhy ddrud. • Bydd bobl hŷn dan anfantais am eu bod yn dlotach o ran asedau pan nad oes modd iddynt aros mewn tŷ penodol am resymau corfforol a bod angen iddynt symud yn nes at eu teulu. • Gallai gorfodi Erthygl 4 greu rhwystrau'n anfwriadol i breswylwyr oedrannus, neu'r rhai hynny o gefndiroedd	

		ethnig lleiafrifol. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan y cyngor yn peri anffafriaeth nac yn cyfyngu ar ddewisiadau tai i'r grwpiau hyn. Dylai cynnal cydraddoldeb a chynhwysiant fod yn flaenoriaeth. • Mae pobl ifanc sy'n ceisio prynu cartref cyntaf yn aml yn derbyn cefnogaeth ariannol gan eu rhieni. Os yw asedau'r rhieni yn werth llai oherwydd Cyfarwyddyd Erthygl 4, bydd hyn wedyn yn llai tebygol. • Bydd marchnad eiddo sy'n elyniaethus i fenthycwyr morgeisi yn ffafrio prynwyr hŷn oherwydd bod ganddynt y gallu Ariannol i brynu heb forgais. Bydd hyn, ar y cyd â gostyngiad mewn prisiau tai yn gwneud Pen Llŷn yn atyniadol iawn i bobl sydd eisiau ymddeol mewn lleoliad arfordirol. • Mae'n rhaid bod marchnad eiddo sy'n ffafrio prynwyr hŷn yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â Pholisi 4 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040. Gyda marchnad sydd wedi'i sgiwio i ffafrio prynwyr hŷn, sut ellir cyflawni 'cymuned gyda chydbwysedd oedran'?	
Cyfeiriadedd rhywiol	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a chyfeiriadedd rhywiol:** Dim sylw penodol wedi codi.	Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o weithredu Erthygl 4 i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a chyfeiriadedd rhywiol:** sylw penodol wedi codi.	
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a chrefydd neu gred (neu ddiffyg cred):**	Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen.

		• Ar sail grefyddol/ddiwylliannol neu genedligrwydd, mae pobl Gymraeg yr ydwyf wedi cyfarfod â nhw ac yn eu hadnabod yn groesawgar iawn ac yn derbyn pawb. Fodd bynnag, maent yn medru bod yn ddig gyda mewnfudwyr sy'n prynu ail dai / tai gwyliau pan nad ydynt hwy eu hunain yn medru cael cartref. Gobeithio yr ymdrinnir â'r pryder olaf trwy wneud newidiadau dan Erthygl 4.	
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a chrefydd neu gred (neu ddiffyg cred):** • Bydd gweithredu erthygl 4 yn arwain at lethu'r farchnad dai, prisiau'n gostwng a mwy o siaradwyr di-Gymraeg a phobl â lefel is o sgiliau'n symud i'r ardal am fod y prisiau'n rhatach. Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, gan y bydd nifer o bobl gyda chredoau, crefyddau a diwylliannau gwahanol yn symud i'r ardal i gael tai rhatach (o gymharu â gweddill y DU) - pobl ddi-Gymraeg a phobl nad ydynt yn Gristnogion.	
Ailbennu rhywedd	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud ac ailbennu rhywedd:** Dim sylw penodol wedi codi.	Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o weithredu Erthygl 4 i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud ac ailbennu rhywedd:** Dim sylw penodol wedi codi.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a beichiogrwydd a mamolaeth:** Dim sylw penodol wedi codi.	Petai ostyngiad i brisiau yn sgil cyhoeddi Erthygl 4 mae'n debyg y byddai hynny o fantais i deuluoedd ifanc sydd eisiau prynu cartref.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a beichiogrwydd a mamolaeth:**	

		Dim sylw penodol wedi codi.	
Priodas a phartneriaeth sifil	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a phriodas a phartneriaeth sifil:** Dim sylw penodol wedi codi.	Nid oes effaith benodol wedi ei adnabod o weithredu Erthygl 4 i'r nodwedd yma. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn edrych ar hygyrchedd y drefn gynllunio ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac yn awgrymu gwelliannau yn ôl yr angen.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a phriodas a phartneriaeth sifil:** Dim sylw penodol wedi codi.	
Yr iaith Gymraeg	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg:** • Os na roddir Cyfarwydded Erthygl 4 ar waith a bod y nifer presennol o unedau gwyliau ac ail gartrefi'n parhau heb gael ei reoleiddio, bydd yr iaith Gymraeg a'r economi'n dioddef. • Bydd yn helpu creu marchnad dai mwy teg ac yn helpu cadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau • Bydd yn diogelu ffyniant yr iaith Gymraeg trwy sicrhau cynnydd yn y cartrefi i bobl leol. Bydd hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd yn y cyfleoedd i bawb wneud defnydd o'r Gymraeg, beth bynnag eu cefndir. • Mae am gael effaith cadarnhaol iawn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a statws y Gymraeg yn y gymuned. Mae cymuned Gymreig yn brysur farw a bydd dim cyfle i siarad yr iaith. Bydd Erthygl 4 yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau. • Gall yr iaith Gymraeg elwa os nad oes rhaid i siaradwyr Cymraeg symud i ardaloedd eraill (oherwydd prisiau tai uchel a fforddiadwyedd isel). • Atal y dirywiad mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac yn sefydlogi statws yr iaith Gymraeg yn y gymuned.	Mae'r bwriad o weithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn golygu fod pawb ar draws yr ardal yn destun yr un cyfyngiadau. Mae cyfres o opsiynau ardal a ystyriwyd (Atodiad 6) er mwyn gweithredu wedi ceisio asesu'r effaith a fyddai gweithredu ar gyfer ardal benodol yn hytrach nac Ardal Awdurdod Lleol Gwynedd gyfan yn ei gael. Daethpwyd i'r casgliad y byddai gweithredu ar gyfer ardal benodol yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth a'r cymunedau ble na fyddai'r ymyrraeth yn weithredol, yn sgil hynny fe fyddai hefyd yn cael effaith ar y Gymraeg. Gobeithir y bydd gweithredu ar gyfer y sir gyfan yn cael effaith gadarnhaol gorau posib. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol fod yn teilwra ei bolisïau cynllunio lleol drwy gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, a cheisio sicrhau fod yna ddarpariaeth o dai ar gael i ddiwallu anghenion penodol am dai preswyl. Mae ceisio gwella y cyfleodd sydd ar gael i bobl fod yn byw yn eu cymunedau brodorol yn fanteisiol o ran ffyniant y Gymraeg a'r defnydd o'r iaith.

		• Byddai'r effaith ar y Gymraeg yn bositif ac yn caniatáu i unigolion/teuluoedd sy'n gallu'r Gymraeg i fyw yn eu cymunedau a defnyddio eu mamiaith gan ddatblygu'r ymdeimlad o berchnogaeth a chymuned drwy wneud hynny hefyd. • Diogelu hawliau'r iaith yn y sir ac atal dirywiad ieithyddol pellach. • Mae ail dai/lletyau gwyliau yn cael effaith andwyol ar gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd ac yn gostwng niferoedd y cymunedau hynny. Bydd maint daearyddol ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn lleihau'n barhaus os na fydd Erthygl 4 yn cael ei harfer. • Galluogi pobl i ddychwelyd i'w hardaloedd genedigol i fyw a gwarchod y Gymraeg. • Bydd yn gwarchod enwau cynhenid Cymraeg tai'r ardal. • Bydd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gam tuag at atgyfnerthu a gwarchod y Gymraeg yn ein cymunedau a'u cadw yn fyw. • Mae cadw nifer y trigolion parhaol sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal yn sicrhau bod ysgolion a grwpiau cymunedol yn parhau i weithredu. • Mae hyn yn un cam pwysig tuag at warchod y Gymraeg fel priod iaith cymunedau Gwynedd.	Er nad yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar statws a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, mae'r ffigyrau fforddiadwyedd yn dangos i ni fod canran uchel o bobl Gwynedd yn methu fforddio prynu cartrefi oherwydd y bwlch rhwng cyflogau cyfartalog a phrisiau tai. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn fwy tebygol o symud allan o'r sir i ganfod cyfleoedd gwaith fydd yn rhoi gwell cyflogau a gwell cyfle o allu fforddio prynu eiddo. Mae'r allfudo yma yn arwain at newid yn y ddemograffeg, sydd yn ei dro yn effeithio ar hyfywedd ieithyddol yn y cymunedau. Mae gweithredu ar y newid yma yn rhan o ymyraethau strategol ehangach i geisio gwarchod y cymunedau hynny lle mae nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, ac felly o ganlyniad credir y bydd y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol, anuniongyrchol ar yr iaith.
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a phriodas a'r iaith Gymraeg:** • Ni fydd y polisi yn dod â phrisiau tai i lawr i'r graddau y byddant yn fforddiadwy i siaradwyr Cymraeg lleol felly bydd yn arwain at wanhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wrth i'r tai gael eu prynu fel prif gartrefi i bobl sy'n medru gweithio gartref neu bobl hŷn sy'n ymddeol. • Credaf ei bod yn debygol o yrru'r rhai sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg i ardaloedd lle mae modd iddynt fod yn rhan o farchnad eiddo heb gyfyngiadau.	

		• Mae'n fwy tebygol o effeithio ar drigolion parhaol Gwynedd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg. Bydd yn eu gwneud yn dlotach ac yn lleihau eu symudedd cymdeithasol • Bydd gwerthoedd eiddo yn cael eu gostwng yn sylweddol ac oherwydd diffyg swyddi yn yr ardal ni fydd bobl ifanc yn medru prynu tai fydd wedyn yn gwanhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn yr ardal gan eu gorfodi i symud i ffwrdd. • Mae Erthygl 4 yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn siaradwyr Cymraeg a phob trigolyn lleol. • Rydym eisiau i'n cenedlaethau iau fod yn llewyrchus; ac nid oes angen i unrhyw un ohonynt golli eu hiaith i wneud hyn, ond siawns ei bod yn bryd mabwysiadu Saesneg fel yr iaith gyntaf yn ein hysgolion a Chymraeg yn ail iaith ofynnol, i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu dal yn y senarios economaidd-gymdeithasol anfanteisiol hyn. • Yn fy marn i, mae'n hanfodol cefnogi'r sawl sy'n newydd i'r ardal trwy gynnig adnoddau dysgu iaith am ddim iddynt. Nid yn unig y mae hyn yn eu helpu i integreiddio ond hefyd yn galluogi defnyddio eu harbenigedd er lles y gymuned. Mae'r dull ar hyn o bryd i weld yn atal unigolion â sgiliau rhag cyfrannu'n effeithiol, a gall hyn arwain at anfanteision economaidd-gymdeithasol yn y pendraw. • Bydd y cyfle i integreiddio mewnfudwyr sy'n siarad Saesneg mewn cymunedau Cymraeg, trwy eu plant, yn cael ei golli os ydych yn ymyrryd â'r farchnad eiddo iddi ffafrio pobl sydd wedi ymddeol yn mudo i'r ardal, gan nad oes ganddynt forgais.	

		• Mae'r erthygl yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn siaradwyr a thrigolion Cymraeg ac mae'n torri Erthygl 8 y Ddeddf Hawliau Dynol.	
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Cefnogi	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith positif a dderbyniwyd yn ymwneud a'r anfantais economaidd-gymdeithasol:** • Bydd hyn yn gwella cyfleoedd i bobl yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol is. • Mae'n mynd i fod yn fanteisiol i ddelio a digartrefedd • Mae'n amlwg byddai'r cynllun yma yn fuddiol i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Y rhain sydd yn colli allan fwyaf os nad oes tai am rent tymor hir; maent yn gorfod dibynnu ar yr adran ddigartrefedd i'w helpu. • Sicrhau bod trigolion y sir o bob cefndir economaidd-gymdeithasol yn gallu byw yn eu cynefin. • Bydd yn cynnig peth amddiffyniad i gymunedau Cymraeg ac unigolion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth alluogi gwarantu lleiafswm o stoc breswyl, yn hytrach na'u bod yn cael eu disbyddu i wneud enillion cyfalaf unigol. • Gall helpu'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth gadw prisiau tai i lawr. Mae pobl yn prynu eiddo rhatach ac yna'n eu rhentu ar Airbnb i wneud arian, sy'n ei gwneud yn amhosib i bobl leol fforddio cartref; • Bydd yr Erthygl yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd dan anfantais economaidd wrth gadw prisiau eiddo ar lefel fwy fforddiadwy. • Bydd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gwella cydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd wrth wneud tai yn fwy fforddiadwy i bobl ar gyflog lleol.	Gan fod gweithredu yn y modd hwn yn ddigynsail, mae'n amhosib rhagweld yn llawn beth fydd y sgil effeithiau. Un sgil effaith posib yw'r effaith a allai ei gael ar werth eiddo preswyl. Gallai gostyngiad mewn prisiau tai olygu fod mwy o bobl yn gallu fforddio i brynu tai (gweler cwestiwn 2.4 am fwy o wybodaeth am sut mae'r farchnad dai yn effeithio pobl leol ar hyn o bryd). Disgwylir hefyd y bydd mwy o eiddo ar gael yn yr ardal ar gyfer pobl sydd yn dymuno cael cartref yma, boed hynny'n bobl leol neu bobl yn symud i'r sir o fannau eraill. Ar y llaw arall pe effeithir ar werth eiddo, mae yna siawns y gallai hynny effeithio ar safonau byw perchnogion yr eiddo dan sylw a'u gwthio hwy i sefyllfa o anfantais economaidd. Ymhellach mae yna fygythiad fod y bwriad yn mynd i effeithio ar y sector twristiaeth, gyda llai o ddarpariaeth o lety gwyliau gall hynny wedyn olygu llai o bobl yn gyflogedig yn y maes gwaith hwn a'r sgil effeithiau cysylltiedig o fewn y farchnad gwaith.

		• Bydd yn help i greu cymunedau hyfyw'n economaidd a bydd hynny yn y pen draw yn help i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. • Yn syml, barus ydi tynnu eiddo oddi ar y farchnad i'w roi ar osod fel uned wyliau pan allai fod yn gartref i deulu lleol sydd angen rhywle i fyw. Mae'n golygu fod yn rhaid i deuluoedd tlotach ymlafnio mwy a mwy i ddod o hyd i lety addas. • Bydd cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 yn un cam i gyfyngu ar eithafion anghydraddoldebau yn ein cymunedau, ac yn ei hanfod yn codi statws trigolion cynhenid yr ardaloedd, bydd yn arwain at lai o anfanteision economaidd-gymdeithasol. • Bydd hyn yn sicrhau nad yw pobl leol yn cael eu allgau o'r farchnad dai a bydd o bosib yn helpu i sefydlogi prisiau tai sydd wedi cynyddu gymaint dros y blynyddoedd. Mae gymaint o bobl ifanc lleol yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol gan nad yw cyflogau cyfartalog yr ardal yn ddigon i'w galluogi i brynu tai yn eu hardal leol. Sgil effaith hyn yw fod pobl ifanc yn gadael ardaloedd o Wynedd a bod hyfywedd cymunedau ac hyfywedd ieithyddol cymunedau yn dioddef. Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gam pwysig ymlaen o ran helpu teuluoedd/pobl ifanc i aros adra.	
	Gwrthwynebu	**Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â'r effaith negyddol a dderbyniwyd yn ymwneud a phriodas a'r anfantais economaidd-gymdeithasol:** • Bydd yn cael effaith andwyol ar y tlotaf yn ein cymdeithas, y rhai hynny sydd mewn cartrefi ar rent neu berchnogion eiddo sydd heb fawr o ecwiti neu ar gynlluniau rhanberchenogaeth.	

		• Bydd y sawl sydd â phrif gartref yn yr ardal yn gweld gwerth eu tai yn gostwng ac efallai y bydd rhai perchnogion tai mewn ecwiti negyddol. • Bydd yr erthygl hon yn cael effaith sylweddol ar y sawl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol a bydd fwy na thebyg yn eu gwthio i fwy o anfantais a thlodi. • Bydd yn arwain at ddadleoli mwy o'r sawl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol gan ychwanegu o bosib at ddigartrefedd, ac rwyf yn siŵr nad ydi'r cyngor eisiau annog hynny. • Bydd yn effeithio'n negyddol ar fusnesau bach a phobl leol a bydd hyn yn arwain at dlodi, ni fydd pobl yn medru dod o hyd i waith a byddant yn cael eu gorfodi i chwilio mewn lleoedd eraill i gael incwm i fedru cynnal eu cartrefi a bwydo eu teulu. Gall arwain at gynnydd mewn dwyn, gwerthu cyffuriau ac iechyd meddwl gwael. • Byddai'r sawl sydd gan anfantais economaidd-gymdeithasol yn elwa o adeiladu mwy o dai cymdeithasol, ac nid o ddwyn rhyddid pobl. • Bydd yn ei wneud yn anos i'r sawl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol brynu cartref oherwydd diffyg morgeisi. • Bydd effeithiau negyddol Erthygl 4 yn atseinio am flynyddoedd, gan wthio llawer i gylch o amddifadedd na fyddant yn medru dod allan ohoni (plant eu plant). • Bydd yn creu dosbarth elît o berchennog tŷ sy'n fwy tebygol o gyflogi gweithwyr o du allan i'r ardal gan greu mwy o raniad rhwng pobl leol a'r elît. • Mae'n debygol o leihau prisiau eiddo ar gyfer prif gartrefi, gan wthio'r rhai hynny sydd a morgeisi uchel i ecwiti negyddol, yn ystod argyfwng costau byw. Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar y bobl dlotaf, pobl fregus a phobl sy'n ddibynnol ar y wladwriaeth.	

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	**A yw'n cael effaith?***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Prif nod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw ceisio hwyluso a sicrhau cyfleoedd i bobl fyw yn eu cymunedau. Nid yw felly'n debygol o gael unrhyw effaith ar gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu nac erledigaeth bresennol, ond byddwn yn rhoi fframwaith fonitro priodol mewn lle os bydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Prif nod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw ceisio hwyluso a sicrhau cyfleoedd i bobl fyw yn eu cymunedau. Bydd hefyd yn ychwanegu at siawns pobl i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Gall y bwriad hyrwyddo perthnasau da gyda phobl o fewn cymunedau Gwynedd gan y byddai, yn ei dro, yn gymorth i roi cyfle i bobl Gwynedd fyw eu hardal o ddewis. Gan hynny gobeithir y bydd yna ymdeimlad o degwch a chyfleoedd cyfartal yn bodoli yng nghymunedau Gwynedd. Wedi dweud hynny gallai gael effaith negyddol, ar siawns o gamddehongli bwriad y cynnig, achosi drwgdeimlad.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Bydd y broses o baratoi a chymeradwyo'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei wneud yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Gobeithir y bydd cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn sicrhau mwy o ddarpariaeth o dai i ddiwallu anghenion lleol.

Ymhellach fe olygai gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 y bydd angen ystyried priodoldeb darpar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Yn unol â'r broses o baratoi'r Cynllun fe fydd wedi bod yn destun Asesiad Effaith Ieithyddol.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Ystyrir yn briodol monitro effaith gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys yr effaith mae'n ei gael ar yr iaith Gymraeg. Mae'r gweithredu ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 i'r dibenion hyn yn ddigynsail a chan hynny bydd angen sicrhau fod yna fecanwaith monitro priodol mewn grym.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Fel nodwyd yn rhan 2 uchod, prif amcan cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 fyddai er mwyn ceisio gwyrdroi'r anghyfartaledd cymdeithasol sydd yn bodoli yn rhai o gymunedau Gwynedd, gan geisio sicrhau fod yna ddarpariaeth o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) ar gael i ddiwallu angen lleol. Ar gyfartaledd mae 65.5% o boblogaeth Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai ac mae hyn yn codi i 96% mewn rhai ardaloedd.

Gan fod gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd dan sylw yn ddigynsail nid oes posib dod i unrhyw gasgliad diamheuol o ran yr effeithiau negyddol a/neu bositif. Mae nifer o sylwadau wedi cael ei dderbyn sydd yn pryderu fod y bwriad yn mynd i gael effaith ar nodweddion gwarchodedig fel amlygir yn rhan 3.1, tra fo eraill o'r farn y byddai'r bwriad yn cael effaith cadarnhaol.

Mae yna nifer o sylwadau wedi ei dderbyn sydd yn gefnogol o'r bwriad ac yn ystyried y byddai'n cynnig cyfleoedd i bobl fyw yn eu cymunedau a chan hynny yn fendithiol i'r rhai sydd yn wynebu anfantais economaidd. Ar y llaw arall, mae nifer yn pryderu y bydd y bwriad yn effeithio'n andwyol ar unigolion sydd yn wynebu anfantais economaidd oherwydd y pryder fod y bwriad yn mynd i gael effaith ar y sector twristiaeth a chan hynny arwain at golli swyddi o fewn y diwydiant. Ymhellach mae yna bryder fod y bwriad yn mynd i ostwng gwerth eiddo gan olygu fod unigolion/teuluoedd yn mynd i ddiweddu fyny mewn ecwiti negyddol ar eu heidio ac yn cael anhawster hefo cael morgeisi.

Mae'r 'Adroddiad Ymgysylltu Cyhoeddus: Cyfnod Ymgysylltu Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4' yn ymateb i'r pryderon hyn. O ran gostwng gwerth eiddo mae yna waith ymchwil wedi ei gynnal yn edrych ar sut fo mecanweithiau tebyg wedi effeithio ar werth eiddo mewn ardaloedd eraill, gan ddod i gasgliad nad oes yna unrhyw batrwm amlwg i'w weld. Mae gwaith ymchwil pellach hefyd wedi ei gynnal o ran argaeledd morgeisi ynghyd a'r effaith y gallasai'r bwriad ei gael ar y sector twristiaeth.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Ddim yn berthnasol gan nad yw'n fater strategol.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Credir y bydd cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael effaith positif ar bob unigolyn gan gynnwys unigolion sydd â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig.

Mae'r anghyfartaledd cymdeithasol sydd yn bodoli ar hyn o bryd mewn rhai cymunedau yn sgil y diffyg argaeledd o dai ynghyd a phrisiau tai sydd tu hwnt i gyrraedd yn creu cymdeithas ranedig anghynaladwy. Mewn ymgais i geisio gwyrdroi'r sefyllfa bresennol mae cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, yn mynd i roi'r cyfle i asesu priodoldeb unrhyw fwriad sydd yn ymwneud a newid defnydd tŷ preswyl i ddefnydd gwyliau, boed hynny yn ddefnydd llety gwyliau neu ail-gartref. Gobeithir y bydd hyn yn creu cymdeithas decach ac yn sicrhau cyfleoedd i bawb fod yn gallu byw yn eu hardal o ddewis.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r Asesiad (gweler rhan 3 uchod) yn adnabod rhai effeithiau posib a allai ddeillio o weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gyfan. Fel gwelir wrth archwilio'r tabl yn rhan 3.1 mae yna safbwyntiau gwahanol o ran yr effaith a ragwelir.

Y prif effaith a dybir gan rhai safbwyntiau yw bod y bwriad yn mynd i arwain at ostyngiad mewn gwerth yr eiddo preswyl, gyda hynny yn ei dro yn arwain at berchnogion eiddo yn wynebu caledi ariannol. Ystyriwyd y byddai hynny'n cael effaith mwy trawiadol ar y rhai sydd yn wynebu anfantais economaidd gan mai hwy yw'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o fod yn berchnogion eiddo sydd â morgais. Ymhellach ystyrir fod yna fygythiad y bydd y bwriad yn cael effaith niweidiol ar y sector twristiaeth a'r economi leol, gan effeithio'n negyddol ar y boblogaeth leol gan gynnwys y rhai sydd yn wynebu anfantais economaidd ynghyd a merched yn benodol, gan, yn gyfraneddol mae mwy o ferched yn ddibynnol ar swyddi yn y sector dwristiaeth.

Yn gysylltiedig â'r gostwng gwerth eiddo mae'r effaith y gallai hynny wedyn ei gael ar yr henoed a'i buddsoddiad ariannol sydd wedi ei fwriadu i gyllido eu gofal.

Ar y llaw arall mae yna safbwyntiau cefnogol sydd yn gwrthgyferbynnu'r effeithiau negyddol hyn. Yn y bôn bydd cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn caniatáu rheolaeth cynllunio a olygai fod rhaid dilyn y camau hanfodol er mwyn gallu ymgymryd â'r newid defnydd, hynny yw bydd rhaid derbyn hawl cynllunio ar gyfer y bwriad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Yn gysylltiedig â chyflwyno'r cais cynllunio fe fydd cyfnod o ymgysylltu a'r sawl a effeithir. Golygai hynny y bydd cyfle i unrhyw berson gyflwyno sylwadau parthed y bwriad. Golygai hynny y bydd y broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn:-

- lleihau'r tebygolrwydd o wahaniaethu a achosir pan nad oes gan aelodau o'r cyhoedd wybodaeth am newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw neu'n teimlo nad oes gennym y gallu i ddylanwadu;
- caniatáu ymgynghori a chanfod barn y rhai sy'n cael eu heffeithio.

Prif nod cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw ceisio sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol ac addas o dai ar gael er diwallu anghenion tai poblogaeth Gwynedd. Gobeithir y bydd yn cyfrannu tuag at fforddiadwyaeth ac yn cefnogi cymunedau lleol a'r Gymraeg.

Bydd cael fframwaith fonitro priodol mewn lle er mwyn asesu effaith gweithredu yn gwbl hanfodol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad a chyfiawnhau'r bwriad o gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae pob ymgais wedi ei wneud i sicrhau fod effeithiau negyddol yn cael ei hamlygu a'i liniaru. Oherwydd natur ddigynsail y bwriad, bwriedir sicrhau fod yna fframwaith fonitro priodol mewn lle er mwyn asesu effaith gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (os bydd yn cael ei gadarnhau). Bydd unrhyw effeithiau negyddol a ystyrir sydd yn cael effaith niweidiol ar nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig yn derbyn ystyriaeth bellach o ran priodoldeb gweithredu i liniaru neu leihau'r effeithiau negyddol hynny.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Gweler yr ymateb i 4.4 uchod.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd Fframwaith Fonitro penodol yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys nifer o ddangosyddion er mwyn monitro gweithrediad y Cyfarwyddyd Erthygl 4. Fel yn briodol fe all y Fframwaith Fonitro gynnwys dangosyddion sydd yn ymwneud ag asesu effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd trafodaethau pellach gyda swyddogion yr Awdurdod ynglŷn â'r uchod yn cael ei gynnal er mwyn derbyn eu mewnbwn a'i harweiniad hwy wrth fynd ati i lunio a ffurfioli'r Fframwaith Fonitro.

RHYBUDD CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD

GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995
(FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD CYFFREDINOL A GANIATEIR ETC) (DIWYGIO) (CYMRU) 2022)

HYSBYSIAD O GADARNHAU CYFARWYDDYD NAD YW'N UNIONGYRCHOL O DAN ERTHYGL 4(1) I GYFYNGU HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR MEWN PERTHYNAS Â RHAI NEWIDIADAU DEFNYDD O ANHEDD(AU) YN ARDAL AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL GWYNEDD

RHODDIR RHYBUDD gan Gyngor Gwynedd ("y Cyngor") fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol priodol eu bod ar 11 Mehefin 2024 wedi cadarnhau Cyfarwyddyd o dan erthygl 4(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) ("y Gorchymyn").

Mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i'r datblygiadau a bennir yn yr Atodlen i'r Rhybudd hwn ac yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

Bydd y Cyfarwydddyd Erthygl 4 yn weithredol o'r 1 Medi 2024.

Effaith y Cyfarwyddyd yw na fydd caniatâd cynllunio a roddir gan Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn berthnasol i ddatblygiad a ddisgrifir yn yr atodlen ac ni fydd datblygiad o'r fath yn cael ei wneud o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd oni roddir caniatâd cynllunio gan y Cyngor ar gais a wneir o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Gellir gweld copi o'r Cyfarwyddyd a chynllun sy'n dangos yr ardal y mae'n ymwneud â hi yn swyddfeydd canlynol y Cyngor rhwng 9yb a 5yp yn ystod yr wythnos (ac eithrio gwyliau banc):-

- Siop Gwynedd Caernarfon: Pencadlys Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE
- Siop Gwynedd Pwllheli: Swyddfa Ardal Dwyfor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
- Siop Gwynedd Dolgellau: Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

Fel arall, gellir gweld copi o'r Cyfarwyddyd, gan gynnwys y cynllun sy'n dangos yr ardal y mae'n ymwneud â hi:

Ar-lein: www.gwynedd.llyw.cymru/erthygl4

PUBLIC NOTICE
CYNGOR GWYNEDD

THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT) ORDER 1995
(AS AMENDED BY THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT ETC) (AMENDMENT) (WALES) 2022)

NOTICE OF THE CONFIRMATION OF A NON-IMMEDIATE DIRECTION UNDER ARTICLE 4(1) TO RESTRICT PERMITTED DEVELOPMENT RIGHTS IN RELATION TO CERTAIN CHANGES OF USE OF DWELLING(S) IN THE GWYNEDD LOCAL PLANNING AUTHORITY AREA

NOTICE IS HEREBY given that Cyngor Gwynedd ("the Council") being the appropriate Local Planning Authority on 11 June 2024 confirmed a Direction under article 4(1) of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (as amended) ("the Order").

The Direction applies to the development specified in the Schedule to this Notice and removes permitted development rights for these types of development.

The Article 4 Direction will be in force from 1 September 2024.

The effect of the Direction is that planning permissions granted by Article 3 of the Order shall not apply to development described in the attached schedule and such development shall not be carried out within Gwynedd Local Planning Authority Area unless planning permission is granted by the Council on an application made under Part III of the Town and Country Planning Act 1990 (as amended).

A copy of the Direction and a plan showing the area to which it relates may be seen at the following offices of the Council between 9am to 5pm weekdays (excluding bank holidays):-

- Siop Gwynedd Caernarfon: Cyngor Gwynedd Headquarters, Castle Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE
- Siop Gwynedd Pwllheli: Dwyfor Area Office, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
- Siop Gwynedd Dolgellau: Meirionnydd Area Office, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

Alternatively, a copy of the Direction, including the plan showing the area to which it relates can be viewed:

Online: www.gwynedd.llyw.cymru/article4.

DRAFT

Atodlen 1 – Cyfyngu ar Hawliau Datblygu a Ganiateir

Y disgrifiadau a ganlyn o ddatblygiadau y cyfeirir atynt yn Nosbarth I, Rhan 3, Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwnnw:

(1) Datblygiad sy'n cynnwys newid defnydd adeilad
- (a) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
  - (iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
- (b) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) ----------
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
  - (iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;
- (c) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) ----------
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
  - (iii) ----------
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
5. Parhau gyda'r gwaith o reoli lefelau gorwariant a gwireddu cynllunio arbedion. Byddwn hefyd yn rhoi strwythur addas i bwrpas mewn lle er mwyn sicrhau ein bod mewn lle cryf i allu wynebu yr heriau a newidiadau yn effeithlon. Fel rhan o gynlluniau arbedion ehangach, nyddwn yn cydweithio gyda Wrap Cymru i fodelu opsiynau amlder casgliadau gweddilliol.	**5.** Mae'r gwaith o gryfhau'r trefniadau rheoli cyllidebau yn parhau, gyda chyfarfodydd misol bellach wedi'u sefydlu rhwng rheolwyr a'r Adran Gyllid. Mae'r rhan gyntaf o'r ailstrwythuro wedi'i chwblhau, ac mae'r ail gam yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae modelu cychwynnol wedi'i gynnal i archwilio opsiynau ar gyfer lleihau amlder casgliadau neu leihau maint y biniau yng Ngwynedd, a'r cam nesaf fydd cynllunio manylach gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Strategaeth. Byddwn wedyn yn cyflwyno opsiynau i'r Cabinet.	✓ Parhaus

Gwynedd Werdd: Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Prosiect: Teithio Llesol

Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicioyn ein cymunedau.





Prosiect: Teithio Llesol

Cerrig milltir 2025/6	Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma	Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau
1. Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, gweithredu ar y cynlluniau llwyddiannus canlynol: **a)** Bangor – Gwedd 3 Ffordd Penrhos/Penchwintan (Teithio Llesol); **b)** Ysgol Foel Gron, Mynytho (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau); **c)** Cyflawni cynlluniau gyda'r £500,000 o gronfa cyfalaf craidd Teithio Llesol.	**1.** Ers derbyn cadarnhad o lefel y gefnogaeth ariannol sydd wedi ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill, rydym wedi bod yn datblygu'r cynlluniau manwl isod ar gyfer eu gwireddu yn ystod 2025/6: **a)** Mae gwaith adeiladu ar wedd 3 wedi ei gwblhau (diwedd Ionawr 2026), gan greu llwybr aml-ddefnydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gosod croesfan newydd o flaen Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd. **b)** Gwaith yn dod i ben ar lwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer yr ysgol, ynghyd a llwybr troed gwell yng nghanol pentref Mynytho a chroesfan i gysylltu efo'r siop/post. **c)** Chwilog i Afonwen: Gwaith ffisegol ar y wedd gyntaf (Afonwen i'r golchdy) wedi ei gwblhau. -Tywyn i Aberdyfi: Yn prynu darn o dir ar hyn o bryd gyda chadarnhad fod cyllid angenrheidiol ar gyfer gwaith ar y trywydd ar gyfer 2026/7 a 2027/8. -Gwaith dichonoldeb a dylunio yn digwydd ar gyfres o gynlluniau eraill yn cynnwys, Llanberis-Caernarfon, Llanystumdwy-Cricieth, Bethel-Caernarfon.	✓
2. Cwblhau gwelliannau i Lôn Las Ogwen fel rhan o gynllun gyllidwyd trwy gronfa ffyniant Bro i gryfhau cysylltiadau teithio lleol yn Nyffryn Ogwen.	**2.** Yn dilyn cwblhau gwaith ym mis Gorffennaf 2025 ar wedd gyntaf y cynllun, a oedd yn cyflwyno nifer o welliannau fel gosod tanffordd gwartheg i hwyluso defnydd o'r llwybr o gyfeiriad Tregarth am Fethesda ar gyfer cerddwyr a beicwyr, mae pont droed aml-ddefnydd newydd wedi ei gosod dros Afon Ogwen. Bydd y Bont Sarnau newydd yn gwella mynediad i ddefnyddwyr ar hyd y Lôn Las yn y rhan yma o Ddyffryn Ogwen gan wella cysylltiad gyda llwybrau i gyrraedd Llyn Ogwen ac atyniad Zip World. Oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol o ran pryd gellir cwblhau gwaith yn yr afon, bydd y gwaith i dynnu'r hen bont ac agor y bont newydd yn digwydd ym mis Mai 2026.	✓

Parhad ar y dudalen nesaf

Prosiect: Teithio Llesol (parhad)

Cerrig milltir 2025/6	Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma	Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau
3. Monitro datblygiadau a gweithredu ar unrhyw newidiadau posibl yn seiliedig ar fabwysiadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (yn ystod 2025/26).	**3.** Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – gyda'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 14 Ebrill. Cymeradwywyd y fersiwn derfynol honno o'r Cynllun gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 28 Hydref 2025, gyda dyraniad ariannol arfaethedig y Cynghorau wedi ei gyflwyno ar gyfer 2026/7. Swyddogion yn parhau i ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau'r dyraniad yn llawn.	✓ Parhaus
4. Parhau i hyrwyddo llwybrau i drigolion ac ymwelwyr i'r sir am y cyfleoedd cerdded a beicio ar rwydwaith teithio llesol Gwynedd.	**4.** Gwaith yn digwydd ar sail parhaus i hyrwyddo datblygiadau sy'n hwyluso cerdded, olwynio a beicio ar rwydweithiau teithio llesol yn y sir, yn cynnwys datganiadau a negeseuon rhagweithiol am y cyllid sicrhawyd a chynnydd ar brosiectau wrth iddynt ddod yn weithredol. Yn ogystal, rydym wedi creu pecynnau gwybodaeth ar gyfer Penaethiaid ysgolion, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth i rannu gyda rhieni am: ◦ Ddiogelwch ffyrdd ◦ Teithio Llesol ◦ Trafnidiaeth cyhoeddus ◦ Sut i greu Bysus Cerdded a Beicio ◦ Mynediad i hyfforddiant diogelwch ffyrdd ◦ Rheolau Teithio ar Fws a Trên i'r ysgol ayyb Fe fydd yr uchod yn cael ei dreialu yn ysgolion y Garnedd, Treferthyr a Godre'r Berwyn. Mapiau teithio llesol i'r ysgol mewn lleoliadau penodol lle mae gwelliannau diweddar wedi eu cyflawni (gweler uchod). Yn ystod 2026, bydd proses ymgynghori pellach yn ennyn barn trigolion ar y llwybrau teithio llesol presennol yn ogystal â chynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2026.	✓ Parhaus

Gwynedd Werdd: Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Prosiect: Trafnidiaeth Gyhoeddus

Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.





Prosiect: Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cerrig milltir 2025/6	**Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma**	**Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau**
1. Cynnal ac adolygu'r rhwydwaith ar sail profiad ac unrhyw newidiadau posibl sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.	**1.** Rhwydwaith newydd yn ymsefydlu gydag adborth a nifer teithwyr cadarnhaol. Parhau i chwilio man-welliannau/ addasiadau lle mae hynny'n bosib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.	✓ Parhaus
2. Parhau i beilota a monitro defnydd gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, G23 rhwng Y Bermo a Phorthmadog a Fflecsi yn ne Meirionnydd.	**2.** Y gwasanaethau ar eu newydd wedd yn ymsefydlu gydag adborth a nifer teithwyr cadarnhaol – 563,783 o siwrneiau yn 2025/6 sy'n gynnydd o 6.6% ar y flwyddyn flaenorol. Lle mae'n ymarferol, rydym yn parhau i chwilio am welliannau/ addasiadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Trefniadau ar gyfer haf 2026 wedi eu cytuno gyda rhanddeiliaid a'r gwasanaethau wedi eu cofrestru gyda'r amserlen haf wedi cychwyn o 28 Mawrth cyn cyfnod gwyliau'r Pasg.	✓
3. Gweithredu gwelliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau.	**3.** Gwaith wedi ei gwblhau yn unol â'r rhaglen i gyflwyno gwelliannau i aros-fannau mewn lleoliadau'n y sir – 3 lleoliad yn Arfon, 3 yn Nwyfor a 3 ym Meirionnydd. Cynlluniau ar gyfer 2026/7 wedi eu cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gyda rhagor o welliannau i'w cyflwyno i aros-fannau yn ystod 2026/7.	✓
4. Monitro datblygiadau a gweithredu ar unrhyw newidiadau posibl yn seiliedig ar fabwysiadu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (yn ystod 2025/26).	**4.** Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – gyda'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 14 Ebrill. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd Cabinet ar 28 Hydref 2025, gyda dyraniad ariannol y Cynghorau wedi ei gyflwyno ar gyfer 2026/7. Byddwn yn symud ymlaen i weithredu yn unol â'r cyllid sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer 2026/7.	✓
5. Parhau i adolygu y darlun ariannol o ran y gost o ddarparu'r rhwydwaith a'r ffynonellau amrywiol.	**5.** Cydweithio agos yn parhau rhwng swyddogion y Gwasanaeth Trafnidiaeth a'r Adran Gyllid i fonitro y sefyllfa ariannol ac ymyrryd yn ôl yr angen. Gwaith penodol nawr yn cael ei ymgymryd i adnabod lefel yr adnoddau mae Cyngor Gwynedd yn ei fuddsoddi yn cynnal y rhwydwaith bysiau lleol. Mae hyn yng nghyd-destun ac fel gwaith paratoadol ar gyfer y system masnachfraint bysiau newydd.	✓

ATODIAD B
Adroddiad Herio a Chefnogi Perfformiad Adran Amgylchedd (hyd at ddiwedd Mawrth 2026).

Mesuryddion Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Cyfeirnodau y mesurau perfformiad

Cynllunio	Rheolwr – Gwawr Teleri Hughes
C1	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio
C2	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth
C3	Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Polisi Cynllunio	Rheolwr – Rebeca Angharad Jones
PC1	Canran o ymatebion ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

Rheolaeth Adeiladu	Rheolwr – Martin Barrow Evans
RH1	Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]
RH2	Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored
RH3	Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle

Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach a Thrwyddedu	Rheolwr – Andrew Lloyd Parry
SM1	Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen
SM2	Nifer achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys
SM3	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd yr Amgylchedd	Rheolwr – Lewis Alun Evans
IA1	Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)
IA2(a) IA2(b)	Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig
IA3	Nifer eiddo preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn

Gwastraff & Ailgylchu	Rheolwr - Chris Rees
G&A1	Perfformiad Ailgylchu Gwynedd
G&A2	Tunelli Gwastraff Gweddilliol
G&A3	Ymholiadau Methu Casgliadau
G&A4	Ystadegau Salwch

Parcio a Gwaith Stryd	Rheolwr – Ceri Hughes Thomas
P&GS1	Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon
P&GS2	Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus
P&GS3	Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd
P&GS4	Nifer y gweithiau gan ymgymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol

Traffig, Prosiectau a Llwybrau	Rheolwr – Iwan Ap Trefor
T&P1	Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd
T&P2	Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir
T&P3	Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir

Trafnidiaeth Cyhoeddus	Rheolwr – Rhian Wyn Williams
TC1	Canran o siwrneiau bwys lleol sydd yn cyrraedd ar amser
TC2	Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu


Busnes – Swyddfa Cefn	Rheolwr - Alison Wyn Owen
B1	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir
B2	Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb

Monitro Cyllid	Rheolwr – Dawn Sinclair
MC	Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus

Cynllunio
C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Cynllunio
C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

Sylwadau


Mae oddeutu 72% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol (sef unai o dan 56 diwrnod neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno), sydd yn gyson gyda'r cyfnod blaenorol. Mae hyn yn amlygu fod nifer uchel o benderfyniadau yn parhau i gael eu gwneud yn amserol, neu gyda cytundeb o estyniad amser gyda'r ymgeisydd/asiant, er gwaethaf y sefyllfa staffio bresennol a'r ymdrech i glirio llwyth gwaith sy'n sefyll. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol, mae un Uwch Swyddog Cynllunio arall yn ymddeol diwedd mis Ebrill, gydag Uwch Swyddog Cynllunio arall yn bwriadu ymddeol diwedd mis Mai. Mae dau Swyddog Cynllunio presennol wedi eu penodi i'r swyddi Uwch Swyddog Cynllunio, ac mae bwriad llenwi'r swyddi Swyddogion Cynllunio yn fewnol a drwy Cynllun Yfory. Mae'r staff presennol yn parhau i weithio'n galed a bydd newidiadau yn parhau i'r cyfnod nesa. 'Rydym hefyd yn gweithio ar nodyn i gylchredeg ar ebyst sydd yn mynd allan i ymgeiswyr/asiantwyr ac Aelodau er mwyn eu hysbysu o'r sefyllfa.
Yn y cyfnod diweddaraf (Ionawr i ddiwedd Mawrth 2026), derbyniwyd 207 o geisiadau newydd a phenderfynwyd 207 o geisiadau hefyd. Mae'r ddau ffigwr yma eto ychydig yn is na'r hyn adroddwyd ar gyfartaledd yn y cyfnod blaenorol, ac yn sylweddol is na'r adeg yma yn 2025, ond ar y cyfan ystyrir fod y sefyllfa wedi cysoni yn dilyn cyfnod o dderbyn nifer uwch o geisiadau cynllunio.
Mae'r nifer o geisiadau sydd yn y system heb benderfyniad wedi aros yn gyson (543) o ganlyniad i'r un nifer o geisiadau yn cael eu derbyn a'u penderfynu. Mae'r nifer yma ar gyfartaledd yn gynnydd bychan drwy'r flwyddyn ers Ebrill 2025.
Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd dros y cyfnod yma wedi cynyddu o 103 i 132 diwrnod. Nodir fod y ffigwr yma yn cynnwys 2 gais oedd yn sefyll heb benderfyniad oherwydd disgwyl gwybodaeth pellach a llwyth gwaith ac fod dyddiau penderfynu'r ceisiadau yma dros 800 diwrnod sy'n cael effaith ar y ffigwr yma. O hepgor y 2 cais yma, byddai'r cyfartaledd amser penderfynu yn gostwng i 124 diwrnod. Nodir fod y cyfartaledd yma yn uwch yn gyffredinol oherwydd cyfnod o glirio llwyth gwaith Uwch Swyddogion sy'n bwriadu ymddeol yn y misoedd nesaf. Mae 9 cais wedi eu penderfynu o fewn cyfnod dros 500 diwrnod a drwy hepgor y ceisiadau yma mae'r cyfartaledd yn gostwng i 108 diwrnod.


Cynllunio

C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Cynllunio

C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

Sylwadau


Yn y cyfnod yma, derbyniwyd 176 o ymholiadau a cheisiadau am gyngor ymlaen llaw a chafodd 305 o achosion eu cau (unai oherwydd nad oeddynt yn ddilys neu roedd ymateb wedi ei ddarparu). Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod blaenorol, mae i weld fod y llwyth gwaith yn parhau yn gyson. Fel yr amlygir ar y graff, gwelir fod yna nifer uchel o ymholiadau wedi eu cau ym mis Mawrth yn dilyn cyfnod o glirio hen ymholiadau oedd yn parhau heb ymateb, ac mae'r cynnydd yn y nifer o ddyddiau i ymateb yn adlewyrchu hyn. Bydd hyn yn gosod sylfaen fwy sefydlog ar gyfer 2026/27.
Mae'r nifer o ymholiadau sy'n agored wedi cynyddu i 84 o ganlyniad i gyfnod o ddelio gydag ôl-groniad o ymholiadau yn disgwyl eu dilysu.

Cynllunio

C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Cynllunio

C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Sylwadau

Agorwyd 59 o gwynion newydd a chaewyd 73 o achosion, a nodir fod yna gynnydd bychan o gwynion newydd ar gyfartaledd ers y cyfnod blaenorol, yn benodol ym mis Mawrth, yn ogystal a chynnydd yn y nifer o gwynion sydd wedi eu cau. Nodir fod y nifer o achosion sy'n parhau yn agored yn parhau yn uchel o ganlyniad i'r nifer sydd wedi ei dderbyn.

Fe adroddwyd yn flaenorol fod newidiadau mewnol i staff, ac fod Swyddog wedi ei drosglwyddo i'r Tim Gorfodaeth o'r Tim Rheolaeth Datblygu ers 1 Ionawr 2026 er mwyn cynyddu'r adnoddau o fewn y tîm ac i ddelio gyda'r ôl-groniad a lleihau'r nifer o achosion agored. Mae cymorth gweinyddol hefyd yn cael ei ffurfioli er mwyn rhoi mwy o amser i'r Swyddogion flaenoriaethu a delio gyda'r achosion a chau y rhai sydd ddim angen gweithrediad pellach. Mae cynnydd yn y nifer o gwynion wedi eu cau o ganlyniad i hyn. Mae'r sefyllfa yma yn debygol o newid yn y cyfnod nesaf oherwydd fod y Swyddog ychwanegol wedi ei phenodi fel Uwch Swyddog ac felly yn symud yn ôl i'r Tim Rheolaeth Datblygu.

Cyhoeddwyd 3 rhybudd gorfodaeth, 1 hysbysiad rhybudd gorfodaeth ac mae'r tîm yn parhau yn y broses o ddelio gyda sawl apêl cynllunio yn erbyn rhybuddion gorfodaeth.

Mae 7 o rybuddion tramgwydd cynllunio wedi eu cyflwyno lle mae ymchwiliadau yn parhau.

Mae'r gwaith o reoli a monitro arwyddion di-ganiatad / goleuedig yn ein prif ganolfannau yn parhau.

Polisi Cynllunio


PC1 - Canran o ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

Enw Rheolwr: Rebeca Angharad Jones

Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau

Mae'r data ar gyfer 2025/6 yn parhau i ddangos perfformiad cadarnhaol o ran ymatebion i ymgynghoriadau a gyflwynwyd yn amserol, gydag oddeutu 94% o geisiadau yn derbyn ymateb o fewn amser.
O'r 56 ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a gyflwynwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2026, cyflwynwyd 48 ohonynt o fewn amser (82%). Er fod hynny islaw y cyfartaledd ar gyfer yr un cyfnod y llynedd (97%), pwysleisir fod yr ymatebion oedd y tu hwnt i'r amserlen yn bennaf oherwydd y math o geisiadau a dderbyniwyd. Hynny yw, ceisiadau cymhleth efo llawer o wybodaeth i ystyried cyn paratoi ymateb, ynghyd a phwysau gwaith arall yn cynnwys y gwaith ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
Dylid nodi nad yw'r ffigurau o reidrwydd yn portreadu'r darlun cyflawn bob amser, gall rhai ceisiadau tra 'wedi'u cwblhau' at ddibenion y dangosydd hwn (gan fod cyngor polisi cynllunio wedi'i ddarparu) arwain at drafodaethau hir a pharhaus gan eu bod yn geisiadau cymhleth sy'n gofyn am fynd i fewnbwn polisi dros gyfnod o amser.
Mae'n bwysig nodi risg tymor byr i canolig o fewn y tîm Polisi Cynllunio, gyda dau arweinydd tîm profiadol iawn yn gadael y Gwasanaeth, un ddiwedd mis Ebrill ac un arall ddiwedd mis Mai. Er bod recriwtio ar y gweill a'r ddwy swydd wedi'u hysbysebu, gyda'r gobaith o allu gwneud penodiadau erbyn canol Mai, mae'n debygol y bydd effaith dros dro ar allu'r tîm i symud ymlaen gyda phrif ffrydiau gwaith. Mae hyn yn cynnwys, gwaith ynghlwm a paratoi'r CDLl, gwaith Erthygl 4, sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion a darparu cyngor polisi amserol ar geisiadau cynllunio. Mae trefniadau lliniaru yn cael eu hystyried ond mae oedi yn y tymor byr yn anochel.




Rheolaeth Adeiladu

RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Rheolaeth Adeiladu

RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau

Mae'r Gwasanaeth wedi dangos perfformiad da o ran penderfyniadau a wnaed ar geisiadau o fewn yr amserlenni statudol yn 2025/26. Mae hyn er yr heriau a gyflwynwyd yn sgil cyflwyno Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 sy'n cynnwys yr angen i Swyddogion gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu fel 'Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig', a'r gofyn iddynt fod yn gymwys (drwy basio arholiadau) a chofrestru i allu ymarfer yn y sector.
Mae trefniadau cefnogi a hyfforddiant, gan gynnwys cynllun gweithlu ar gyfer y tîm, ar waith i gefnogi datblygiad staff a gwneud y mwyaf o'r lefelau cymhwysedd o fewn y Gwasanaeth.
Rydym wedi llwyddo i recriwtio Arolygydd Adeiladu dan hyfforddiant yr LABC ar secondiad 2 flynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
Dylid nodi hefyd fod achos gorfodaeth mewn perthynas â Gwesty'r Corbett Arms sy'n parhau, hefyd wedi cyflwyno heriau ac wedi gofyn am swm sylweddol o amser a mewnbwn staff.
Mae'r Gwasanaeth wedi gwella ei gyfran o'r farchnad o 72% i 78% wrth dderbyn ceisiadau am reoliadau adeiladu, mewn cystadleuaeth â'r sector breifat (Registered Building Control Approvers).
Bydd gofynion newydd ar gyfer Deiliaid Dyletswydd o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022 yn dod i rym ym mis Gorffennaf a fydd yn effeithio ar y broses ymgeisio Rheolaeth Adeiladu.
Bydd y cyflwyniad cyfreithiol drwy'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer deiliaid dyletswydd penodedig (Cleient, Prif Ddylunydd a phrif gontractwr) yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gall hyn effeithio ar amseroedd penderfynu i ddilysu ceisiadau rheoliadau adeiladu ac ymestyn amseroedd cofnodi arolygu safle parhaus ac ardystio cam cwblhau terfynol. Mae gwaith paratoi ar y gweill gyda'r system swyddfa gefn, a hysbysu cleientiaid, dylunwyr a chontractwyr o'r newidiadau sydd i ddod.
Mae'r Gwasanaeth a'r Uwch Reolwyr wedi mynychu gweithdai gyda Phartneriaethau Lleol sydd wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad Rheolaeth Adeiladu ar y farchnad gymysg, lle mae disgwyl adroddiad a chanfyddiadau ddiwedd 2026 a fydd yn gosod cyfeiriad Gwasanaethau Rheolaeth Adeiladu i'r dyfodol.


Rheolaeth Adeiladu

RH2 - Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau

Yn ystod cyfnod 2025/2026 mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru 22 achos/cais o waith anawdurdodedig, ac mae 13 achos ohonynt wedi'u cau. Mae nifer yr achosion agored bellach yn 87, sy'n tynnu sylw at yr heriau o ddelio â'r llwyth gwaith presennol tra'n cydbwyso'r amser sydd ar gael ar gyfer elfennau o'r Gwasanaeth sy'n ymwneud â denu ffioedd ac elfennau lle nad oes modd denu ffioedd.
Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi darparu trefniadau llif gwaith newydd, hyfforddiant staff, ac adroddiadau misol ar gyfer Arolygwyr Adeiladu lle mae nifer o achosion agored wedi'u cau. Wrth symud ymlaen oherwydd y newidiadau a wnaed, rydym yn rhagweld parhad o'r gwelliant cau ffeiliau lle bo'n berthnasol. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar ddogfen bolisi newydd a gweithdrefnau gorfodi yn unol â newidiadau deddfwriaeth newydd Deddf Diogelwch Adeiladu 2022, a fydd yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2026.



Rheolaeth Adeiladu

RH3 - Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau


Mae'n bwysig tanlinellu fod adeiladau peryglus yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn 24 awr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn ystod 2025/2026 mae'r Gwasanaeth wedi delio â 33 achos o adeilad peryglus sydd wedi'u gwneud yn ddiogel o fewn 24 awr, gyda 24 achos wedi'u cau. Nid yw achosion adeiladu peryglus ar gau nes bod y gwaith sydd angen ei wneud ar y safle wedi'i gwblhau. Felly, gyda'r 52 achos oedd dal ar agor ar ddiwedd y cyfnod, bu camau gan y Gwasanaeth i wneud yr adeilad yn ddiogel o safbwynt diogelwch y cyhoedd, ond fod angen cwblhau'r gwaith ar y safle neu adennill costau.

Rhaid nodi y gall achosion aros ar agor lle mae'r adeilad wedi'i wneud yn ddiogel ac mae'r gwaith ar y safle wedi'i gwblhau, mewn achosion lle mae'r Gwasanaeth wedi gorfod cymryd camau i gyflawni a thalu am waith o ganlyniad i gamau cyfreithiol sy'n ofynnol i adennill costau.

Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi darparu trefniadau llif gwaith newydd, hyfforddiant staff, ac adroddiadau misol ar gyfer Arolygwyr Adeiladu lle mae nifer o achosion agored wedi'u cau. Wrth symud ymlaen oherwydd y newidiadau a wnaed, rydym yn rhagweld parhad o'r gwelliant sy'n cau ffeiliau lle bo'n berthnasol.

Mae achos gyda'r strwythur peryglus yng Ngwesty'r Corbett Arms yn Nhywyn yn parhau, ac wedi gofyn am fewnbwn sylweddol gan y Gwasanaeth mewn cydweithrediad â Gwasanaethau eraill y Cyngor ac mae'n enghraifft o'r gost sylweddol bosibl i'r Cyngor o ran sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Achosion strwythurau peryglus



Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu


SM1 - Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen.


Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau

Cwblhawyd 100% o'r archwiliadau risg uchel oedd wedi eu pennu ar gyfer y flwyddyn. Roedd 56 eiddo categori 'risg uchel' wedi cael eu hadnabod ar draws y Gwasanaeth ar gyfer 2025-26. Roedd rhain yn eiddo/busnesau sydd yn cael eu hadnabod fel risg uchel oherwydd cymhlethdod/risg gweithgaredd busnes, neu fod hanes a phryder o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Safonau Masnach dros gyfnod o amser.
Roedd canran o archwiliadau sy'n cael eu cwblhau yn isel hyd nes mis Hydref gan nad oedd pwrpas archwilio'r 19 eiddo oedd yn cael eu trwyddedu i storio tân gwyllt nes byddent yn derbyn y stoc ac yn storio'r tân gwyllt ar yr eiddo.
Roedd y 37 eiddo oedd yn weddill yn disgyn i'r tîm lechyd Anifeiliaid, ac felly yn archwiliadau fferm. Cafodd sawl archwiliad fferm eu dal nôl hyd nes bod yr anifeiliaid yn cael eu casglu fewn oddi ar y tir - i'n galluogi i gael golwg manwl ar y stoc a sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer yr anifeiliaid.
Yn falch o allu adrodd fod y Gwasanaeth wedi gallu cyrraedd y targed o 100% - ac hyn wedi ei gyflawni er fod y tîm lechyd a Lles Anifeiliaid wedi gorfod gweithredu am bron i 6 mis hefo 1 swyddog gorfodaeth i ffwrdd ar salwch tymor hir.






Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau

Mae achosion o dor-cyfraith troseddol yn cael eu hadnabod drwy gyfuniad o adroddiadau/pryderon/cwynion sy'n dod i sylw'r Gwasanaeth gan aelodau'r cyhoedd a busnesau, yn ogystal â gwaith rhagweithiol rydym yn ei adnabod fel rhan o archwiliadau i fusnesau. Mae'r mesur yn ogystal yn ystyried y cyfanswm ôl-groniad o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n parhau yn agored ers i'r mesur ddod yn weithredol (01/04/2024), ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio arnynt i geisio datrys.
Mae tor-cyfraith troseddol yn cael ei ystyried fel 'torri unrhyw ddeddfwriaeth droseddol y mae Swyddogion Safonau Masnach Gwynedd wedi eu hawdurdodi i orfodi'. Nid yw hyn yn cynnwys materion tor-cyfraith sifil.
I grynhoi'r 12 mis diwethaf, mae'r tîm lechyd a Lles Anifeiliaid wedi parhau â'r gwaith o ymateb i geisiadau am wasanaeth yn ymwneud â materion iechyd a lles anifeiliaid ynghyd â chynnal archwiliadau rhaglenedig i ganolfannau casglu, marchnadoedd da byw ac archwiliadau rhaglenedig yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd amaeth.
Mi fu raid i'r Gwasanaeth erlyn 1 ffermwr yn Llys yr Ynadon am fethiant i sicrhau gofal o'i stoc, gan achosi niwed diangen iddynt. Oherwydd difrifoldeb y troseddu, cafodd yr achos ei gyfeirio i Lys y Goron ar gyfer y ddedfryd, gyda'r unigolyn wedi ei atal rhag cadw anifeiliaid am gyfnod o 10 mlynedd.
Mae'r tîm Gwarchod Defnyddwyr wedi parhau i flaenoriaethu gwaith drwy ymateb i gudd-wybodaeth yn ymwneud â gwerthiant nwyddau anghyfreithlon ar draws y sir - yn bennaf tobacco a fêps.
Ym mis Chwefror 2025, mi fu'r tîm yn llwyddiannus yn diogelu rhybudd cau am gyfnod o 3 mis (uchafswm amser a ganiateir) ar eiddo ym Mangor o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Heddlu 2014 - roedd hyn yn dilyn ymchwiliad parhaus dros gyfnod o amser i ymarferion masnachu'r siop. Yn ychwanegol i ymateb i geisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud ag ymarferion masnachu busnesau, cynnal archwiliadau penodol ayyb, mae'r tîm yn ogystal wedi bod yn rhan o sawl ymgyrch aml-asiant yn targedu siopau'r Stryd Fawr sy'n gysylltiedig â landeru arian, derbyn arian parod yn unig ayyb.


Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM3 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud a thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

Sylwadau

Mae'r data ar gyfer y 12-mis diwethaf yn cadarnhau fod perfformiad cadarnhaol a bod amser cyfartaledd prosesu ceisiadau yn hynod effeithlon, sef rhwng 3.3 diwrnod ac 8.4 diwrnod.
Mae'r gwaith o brosesu cais am drwydded tacsi yn dasg sydd wedi cael ei flaenoriaethu ers sawl blwyddyn bellach oddi fewn y Gwasanaeth. Mae'r cyfartaledd dyddiad prosesu yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r nifer o ddiwrnodau prosesu o'r amser mae'r cais yn cael ei ystyried yn gyflawn - hynny ydy fod pob dogfen angenrheidiol wedi ei dderbyn.
Mae'r nifer o geisiadau mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn, a'r cyfartaledd dyddiad prosesu yn amlygu i fod yn eithaf cyson ers peth amser bellach, ac yn werth ei amlygu o ystyried y gwahanol agweddau eraill sydd yn gysylltiedig a'r gwaith Trwyddedu.



Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA1- Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr, defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau

Ar 31/03/26, roedd 2,072 o fusnesau bwyd wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. O'r rhain roedd 2,046 (98.75%) yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch a 26 ddim yn cwrdd â'r safon (1.25%).
Dylai fod pob eiddo sydd ddim yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol yn derbyn ail-ymweliad o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.
Er mwyn tynnu sylw at y maes yma ac i annog y cyhoedd i wirio sgoriau busnesau mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghyd â chyhoeddi negeseuon rhagweithiol ein hunain ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor.
Gellir gweld sgor hylendid bwyd busnesau bwyd Gwynedd drwy ddilyn y linc: https://ratings.food.gov.uk/cy

Canran busnesau bwyd gyda sgôr o 3 neu uwch

99%


Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd


IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Sylwadau

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn nhrefniadau'r gwasanaeth dros y dair blynedd diwethaf. Fe fu i un swydd gael ei dorri o'r strwythur yn 2024, mae nifer o swyddogion profiadol wedi gadael a bu newidiadau yn strwythur rheolaethol gwasanaethau gwarchod y cyhoedd ddechrau 2025. Golyga hyn nad ydym yn medru cyflawni ein rhaglen archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â'r gofynion. Rydym wedi bod ac yn parhau i flaenoriaethu archwiliadau busnesau bwyd risg uchel / uwch a busnesau newydd.

Nodir fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cynnal archwiliad o'r Gwasanaeth Bwyd yn ystod Hydref 2024, ac wedi codi pryderon ynglŷn a'r diffyg adnoddau a ddarperir ar gyfer y gwaith. O ganlyniad, mae'r ASB yn datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd (gweler B&D2(B). I gyfarch hyn mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi yn y gweithlu drwy drefnu fod 3 swyddog di-brofiad yn eistedd cymhwyster fydd yn eu galluogi i gwblhau dyletswyddau statudol. Rydym hefyd wedi manteisio ar 'Gynllun Yfory' y Cyngor a phenodi hyfforddai gwarchod y cyhoedd. Yn ogystal, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o fabwysiadu trefniadau mwy effeithiol o weithio, er enghraifft, defnydd offer cofnodi gwaith allan yn y maes (tabledi, ffonau symudol).

Yn 2026/27 bydd trefn asesu risg newydd yn cael ei fabwysiadu gan Gynghorau Cymru ar gyfer safonau bwyd. Mae'r drefn eisoes yn weithredol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac wedi ei dreialu mewn 2 Gyngor yng Nghymru. Yr ASB sy'n gyfrifol am gyflwyno'r newid ac maent wedi datgan ei fod y newid mwyaf i'r model gweithredu safonau bwyd ar gyfer rheolaethau swyddogol mewn perthynas a chyfraith bwyd ers 30 mlynedd. Un nod o ddiwygio'r model gweithredu oedd lleihau y gofyn gorfodaeth cyfraith bwyd gan Lywodraethau Lleol. Mae'r adborth dechreuol yn cynnig y bydd angen mwy o adnodd i weithredu'r model diwygiedig nag oedd angen i weithredu'r un presennol. Rydym am fabwysiadu'r drefn newydd yn ystod mis Ebrill eleni.

Gwarchod y Cyhoedd -Iechyd yr Amgylchedd


IA2(b) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.


Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau

Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser swyddogion rydym yn ymdrechu i gynnal archwiliadau hylendid a safonau bwyd yr un adeg. Bydd swyddogion yn dilyn y rhaglen hylendid bwyd ac yn cwblhau archwiliad safonau bwyd os oes un wedi ei raglennu oddi fewn y 12 mis nesaf neu heb ei gyflawni yn flaenorol.
Oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig roeddem wedi penderfynu mai ffocws ein hymdrech archwilio dros 2025-26 oedd eiddo bwyd risg hylendid uchel (A-C), busnesau newydd ac eiddo safonau bwyd risg uchel (A). Rydym wedi dod yn agos at gyflawni hyn gyda dim ond 4 eiddo risg C (hylendid) a 5 busnes newydd heb dderbyn ymyrraeth erbyn diwedd y flwyddyn (eiddo tymhorol nad oedd wedi agor dros y gaeaf).
Nid ydym wedi cwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru o ran archwiliadau diogelwch bwyd eleni - roedd 291 arolygiad hylendid heb eu cyflawni ddiwedd y flwyddyn.







Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA3 - Nifer eiddo ar ddŵr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA3 - Canran o eiddo sydd ar gyflenwad dwr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dwr ac asesiadau risg yn unol a'r amserlen rhaglenedig

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau

Mae'r gwaith yn statudol er mwyn sicrwydd diogelwch dŵr yfed mewn cyflenwadau gwledig o ffynhonnell breifat. Rydym yn adrodd fesul 12 mis calendr i'r 'Drinking Water Inspectorate' sydd yn rheoleiddio a gwirio gwaith Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau fod cyflenwadau preifat busnesau megis llety gwyliau a gwestai yn darparu dŵr glan diogel i'w cwsmeriaid a staff. Mae ceisiadau rheolaidd hefyd yn dod i samplo cyflenwadau dŵr domestig unigol, ac mae hyn yn ychwanegol i'r llwyth gwaith a adroddir arno, amcangyfrif fod tua 2,000 o gyflenwadau preifat domestig unigol.
Mae'r rhaglen samplo ac asesu risg yn un statudol, tra llwyddir i gynnal y rhan fwyaf o'r samplau ar y rhaglen 12 mis, rydym yn tanberfformio yn sylweddol ar gynnal yr Asesiadau Risg, sydd angen eu cynnal bob 5 mlynedd. Mae swyddogion o'r Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi bod yn cyfrannu at y gwaith rhaglen samplo dros dro. Ddiwedd Mawrth roedd ôl-groniad o 50 sampl dŵr a 282 asesiad risg yn ddyledus. Mae'r gwaith o gynnal asesiadau risg wedi ail ddechrau. Oherwydd hyn bwriedir addasu'r mesur perfformiad i adlewyrchu faint o asesiadau risg sydd wedi eu cwblhau dros gyfnod ar nifer sy'n parhau heb eu cyflawni ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bwriedir adrodd perfformiad samplu dŵr yn yr un modd.


Gwastraff ac Ailgylchu


G&A1 - Perfformiad Ailgylchu Gwynedd

Enw Rheolwr: Chris Rees
Pwrpas y Gwasanaeth: Cynnal ymgyrchoedd lleol a traws-sirol i hyrwyddo, addysgu a helpu trigolion i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan annog mwy o ailgylchu

Sylwadau

Disgwylir i'r ffigwr ailgylchu eleni fod yn debyg i'r llynedd, ble mae agor bagiau du yn y canolfannau ailgylchu wedi helpu i wrthbwyso'r effaith o beidio ailgylchu cewynnau. Mae sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% o ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol yn elfen greiddiol o'r Strategaeth Wastraff newydd. Mae'r llwybr at y targed wedi'i nodi yn y ddogfen strategol, a bydd adroddiadau pellach i'r Cabinet yn ystod y gwanwyn yn darparu manylion ychwanegol ynghylch y costau a'r camau gweithredu angenrheidiol. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o gynlluniau i leihau gwastraff (gweler G&A2), a disgwylir i'r mesurau hyn gyfrannu at gynyddu cyfraddau ailgylchu. Er enghraifft, mae astudiaeth ddiweddar wedi dangos bod 57% o gynnwys biniau trigolion a 58% o finiau busnes yn cynnwys deunyddiau y gellid eu hailgylchu. Yn ogystal â mesurau lleihau gwastraff ac annog ailgylchu, mae cyfleoedd eraill megis datblygu marchnad well ar gyfer coed. Fodd bynnag, mae risg o ddirwyon os na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed statudol o 70%. (Noder fod y ffigwr 2025/6 hyd yma ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Chwarter 3)





Gwastraff ac Ailgylchu


G&A2 - Tunelli Gwastraff Gweddilliol

Enw Rheolwr: Chris Rees

Pwrpas y Gwasanaeth: Lleihau'r gwastraff gweddilliol a gesglir gan uchafu ar ddeunyddiau i'w ailgylchu / ail-ddefnyddio. Drwy hyn, cyflwyno gwasanaeth casglu dibynnol a thaclus

Sylwadau

Mae lleihau cyfaint y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir ac a anfonir i Barc Adfer yn un o'r chwe amcan yn y Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu. Bydd y cynlluniau a nodir yn y ddogfen yn dechrau cael eu gweithredu. Bydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn cyfrannu at newid ymddygiad, ond mae'n anodd mesur eu heffaith yn uniongyrchol. Felly, bydd camau gweithredu pendant yn cael eu cyflwyno, megis lleihau capasiti biniau ar gyfer trigolion a busnesau, cynyddu ailgylchu gwastraff stryd, ehangu'r cynllun agor bagiau du yn y canolfannau ailgylchu, a chasglu ffrydiau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu hailgylchu, megis plastigion meddal. Os na lwyddir i leihau'r cyfaint a anfonir i Barc Adfer, mae risg sylweddol y bydd y Cyngor yn wynebu costau uwch o ganlyniad i dreth carbon.



Mae pob cartref yng Ngwynedd yn cynhyrchu 260kg o wastraff gweddilliol pob blwyddyn




Gwastraff ac Ailgylchu

G&A3 - Ymholiadau 'Methu Casgliadau'

Enw Rheolwr: Chris Rees
Pwrpas y Gwasanaeth: Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno

Sylwadau

O ystyried y data yn ei gyd-destun ehangach lle mae gweithlu yn casglu o gartrefi ledled y sir bob wythnos, mae'r gwasanaeth yn llwyddo i gasglu 99.8% o finiau'n gywir ac yn brydlon, gan adlewyrchu lefel uchel o berfformiad gweithredol.
Yn ystod y cyfnod rhwng 2023–24 a 2024–25, cofnodwyd gostyngiad sylweddol o dros 8,200 o gwynion, sy'n cyfateb i leihad o 44%. Bu gostyngiad pellach o 1,600 o gwynion (15%) rhwng y llynedd a'r flwyddyn bresennol. Mae'r gostyngiad parhaus hwn yn adlewyrchu gwelliannau sylweddol yn ein trefniadau gweithredu.
Wrth i system TG Bartec wreiddio yn y gwasanaeth, ein nod yw sicrhau gostyngiad pellach yn nifer y cwynion casglu, gan alluogi adrodd mwy cywir ar fethiannau gwirioneddol sy'n deillio o'n camgymeriadau ein hunain. Mae Bartec a'r camerâu ar y cerbydau eisoes wedi gwella cywirdeb ac amseriad ein hymatebion.
Rhagwelir y bydd integreiddio Bartec â system fewnol Ffos yn 2026–27 yn galluogi trigolion i dderbyn ymatebion 'real time' i'w holiadau, gan gryfhau tryloywder a hyder y cyhoedd.



Gwastraff ac Ailgylchu

G&A4 - Canran cyfartalog salwch

Enw Rheolwr: Chris Rees


Pwrpas y Gwasanaeth: Casglu gwastraff ac ailgylchu o 64,000 o gartrefi'r sir yn unol â'r amserlen sydd wedi ei gytuno


Sylwadau

Mae'r mesur yn tynnu sylw at lefelau salwch ymhlith staff casglu gwastraff. Trwy reoli salwch yn effeithiol, ceir cyfle i wella perfformiad, lleihau methiannau casglu a rheoli costau - sy'n brif flaenoriaethau i'r Adran wrth geisio gwella ansawdd y gwasanaeth. Oherwydd natur gorfforol y gwaith, mae'r trothwy ar gyfer bod yn "ffit i weithio" yn uwch nag mewn meysydd eraill o fewn y Cyngor. Mae trefniadau'r polisi absenoldeb corfforaethol bellach wedi'u hymgorffori, gan gynnwys hyfforddiant penodol i arweinwyr tîm i'w galluogi i ddelio'n rhagweithiol â lefelau salwch uchel. Er bod pob achos salwch yn adlewyrchu amgylchiadau unigol, mae'n bwysig dangos bod yr Adran yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi lles staff a chynnal safonau'r gwasanaeth. Mae'r llinell duedd yn ardal y Gogledd wedi gostwng o tua 17.5% ym mis Ebrill 2023 i oddeutu 12% ar hyn o bryd. Yn y De, mae'r duedd wedi codi o tua 10% i 13%, er bod y ffigyrau 9 allan o'r 10 mis diwethaf yn is na hyn, gan awgrymu gwelliant. Dylid nodi y gall salwch hirdymor gan nifer fach o weithwyr effeithio'n sylweddol ar y canrannau hyn.

Gellir gweld o'r mesurydd GA3 fod niferoedd ymholiadau methu casgliad yn parhau i ddangos gwelliant ac felly rydym yn hyderus fod lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn parhau yn dda a bod y cylchdeithiau yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Rydym hefyd yn dechrau trafod gydag awdurdoau eraill am lefelau salwch yn eu gwasanaethau casglu, ynghyd a gwasanaethau eraill rheng-flaen tebyg mewn adrannau eraill yn y Cyngor lle mae natur y gwaith yn fwy corfforiol. Bydd hyn yn gyfle i ddeall mwy am y lefelau a rhannu ymarfer da.





Parcio


P&GS1 - Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Mae'r perfformiad yn dangos ymagwedd gadarnhaol, a bod tim bychan o swyddogion yn ymateb yn brydlon iawn i geisiadau a phryderon gan y cyhoedd. Mae gennym gyfanswm o 9 Swyddog Gorfodaeth Parcio yn gweithredu ar draws y sir, gyda gwasanaeth yn weithredol dros 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion yn ddyddiol am holl agweddau sy'n ymwneud â pharcio. Yn aml iawn, nid yw'n bosibl i'r gwasanaeth weithredu oherwydd diffyg pwerau neu gyfyngiadau parcio.
Ar gyfer pwrpas yr ymarferiad hwn, mae'r graff isod yn cynnwys cwynion gan Aelodau Lleol a/neu aelodau'r cyhoedd am gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gyfyngiadau parcio yn unig - felly roedd modd i'r swyddogion weithredu.
Derbyniodd 75% o'r lleoliadau ymweliad o fewn 1 diwrnod, gyda phob lleoliadau yn derbyn ymweliad o fewn 3 diwrnod. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i gwynion yn brydlon, er hyn, mae'n bosibl gall cyfnodau salwch neu absenoldebau eraill o fewn y tîm greu oedi.
Nid oedd yn bosibl i'r Swyddogion orfodi mewn 12% o'r lleoliadau oherwydd nad oedd cyflwr y cyfyngiadau yn cyrraedd y safon sy'n caniatáu i orfodi'n gyfreithlon. Mae ceisiadau wedi eu trosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor ar gyfer ail-baentio'r ffordd.




Parcio

P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas
Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Parcio

P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Caiff dirwyon eu rhoddi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo yn y gallu i ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw. Mae gan bob modurwr sy'n derbyn dirwy yr hawl i gyflwyno apêl petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad wedi digwydd.

O'r cyfanswm 16,757 o docynnau sydd wedi eu cyflwyno gan y Cyngor, cyflwynwyd 3,306 o apeliadau (Ebrill 2025 - Mawrth 2026), cafodd 859 o'r rheini, sef 26% o'r apeliadau eu dileu. Mae 5.1% o'r holl docynnau sydd wedi eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma wedi eu dileu.

Ar wahân i sefyllfaoedd eithafol, mae'r mwyafrif o'r apeliadau llwyddiannus gan unigolion sydd wedi prynu tocyn yn y maes parcio ond heb dalu ac arddangos am amryw o wahanol resymau e.e. y tocyn wedi syrthio o'r golwg neu cwsmer wedi mewnbynnu un digid anghywir drwy ddefnyddio'r Ap Talu gyda ffôn neu ddalwyr bathodynnau glas sydd wedi camddeall yr amodau. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, credir ei bod yn rhesymol i ddileu'r ddirwy. Gyda pherthnasedd i'r nifer apeliadau a drosglwyddwyd i'r beirniaid annibynnol am ystyriaeth, noder mai un achos yn unig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod penodol dan sylw, a bod canlyniad yr achos hwn yn ffafriol i'r Cyngor.


Rydym wedi addasu'r mesur i gynnwys nifer cyfanswm y Rhybudd Talu Cosb (RhTC) sydd wedi eu cyflwyno er mwyn rhoi cyd-destun ehangach yn hytrach na dim ond y rhai sydd wedi eu hapelio sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus fel yn flaenorol. Rydym hefyd wedi ychwanegu i nodi'r cyfanswm RhTC gan ddangos os ydynt 'ar stryd' ac 'oddi ar stryd' – gweler y mesur nesaf.


Parcio

P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas
Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Parcio

P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Caiff ymdrech arbennig ei wneud gan Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i sicrhau bod lefel briodol o fonitro'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau bod llif traffig yn symud yn ddi-rwystr. Maent yn cymryd camau gorfodaeth briodol yn erbyn modurwyr sydd yn dewis parcio'n anghyfreithlon ar ddarnau o'r briffordd, gan gynnwys mannau parcio ble caniateir i barcio am gyfnod penodol ar y stryd. Caiff ymdrech hefyd ei roi tuag at fonitro ein meysydd parcio talu ac arddangos sydd yn cynhyrchu arian sylweddol i'r Cyngor.


Mae'r graff yn amlygu bod 60% o'r Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd i fodurwyr rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 am droseddau parcio ar y briffordd e.e. parcio ble mae cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn sengl, dwbl, clirffordd, linell wen amddiffyn mynedfeydd, baeau parcio arhosiad cyfyngedig neu gamddefnyddio baeau anabl (gyda'r gweddill mewn meysydd parcio).

Gwaith Stryd

P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Gwaith Stryd

P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Mae gweithiau a gyflawnir ar ein strydoedd neu ffyrdd yn rhan o fywyd dydd i ddydd, ac er iddynt achosi anhwylustod i aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, maent yn allweddol i ddarparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar rwydwaith y briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol neu gontractwyr, ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd ble caiff ardaloedd eu haflonyddu am gyfnodau hir o ganlyniad i weithiau. Gosodir amodau penodol i geisio rheoli hyn, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgymerwr allu ymestyn cyfnod.
Er bod mwyafrif o'r gweithgareddau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol, nid yw'n anghyffredin i redeg dros amser ar adegau am amryw o wahanol resymau e.e. dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar ôl cychwyn tyllu'r ffordd, oedi oherwydd problemau staffio, dibynnu ar gwmnïau eraill, methu cael gafael ar yr offer neu gyfarpar priodol.
Mae'r graff yn cynnwys y data a ddalwyd am y canrannau o'r gweithiau bu redeg heibio'r amserlen wreiddiol yn ystod y cyfnod penodedig.
*Mae'n bosibl bod sefyllfaoedd prin ble mae cwmnïau wedi penderfynu cyflawni gweithiau heb hysbysu'r Gwasanaeth Gwaith Stryd - nid yw'r data yn cynnwys sefyllfaoedd o'r math yma.

Traffig, Prosiectau a Llwybrau

T&P1 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd

Enw Rheolwr: Iwan Ap Trefor **Pwrpas y Gwasanaeth:** Rheoli a cydlynu rhwydwaith priffyrdd pwrpasol a diogel ynghyd a datblygu a gwireddu prosiectau trafnidiaeth.

Sylwadau

Prif Faterion Traffig a Nodwyd a Chamau sydd wedi eu cymryd fel Ymateb:

• Cwynion am Or-yrru:

Mae nifer sylweddol o gwynion wedi dod i law ynghylch gor-yrru, yn enwedig mewn ardaloedd 20mya. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder amlwg ymhlith trigolion. Gwaith ar y cyd yn digwydd gyda Heddlu a Chynghorau Cymuned a Thref i gymryd camau rhagweithiol lle mae hynny'n bosib.

• Ceisiadau am Fesurau Lleihau Cyflymder:

Mae nifer o geisiadau i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder y tu allan i ardaloedd 20mya a 30mya yn parhau'n gyson, gan adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch diogelwch traffig. Fel uchod, cydweithio gyda phartneriaid i daclo lle bynnag bosib.

• Gwaharddiadau Parcio:

Mae nifer o geisiadau am waharddiadau parcio wedi cynyddu i gymharu ag 2025.


• Ymholiadau Heb Ateb:

Rydym bellach yn llwyddo i ymateb a rhoi sylw i ymholiadau a dderbynnir mewn modd amserol.

• Gwybodaeth Gyhoeddus:

Rydym wedi datblygu cyfres o gwestiynau a ofynnir yn aml i leihau nifer yr ymholiadau trwy wella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â materion traffig sy'n dod i'n sylw yn rheolaidd. Bwriad hyn fydd sicrhau fod gwybodaeth amserol a chyson ar gael i drigolion ar unrhyw adeg. Bydd yr wybodaeth yma yn gyhoeddus ar ôl gwaith uwchraddio ar y wefan.

*Mesurydd yn weithredol ers Mehefin 2025.



Traffig, Prosiectau a Llwybrau


T&P2 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir

Enw Rheolwr: Iwan Ap Trefor

Pwrpas y Gwasanaeth: Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

Sylwadau

Mae'r mesurydd hwn yn weithredol ers mis Ebrill 2024, gyda'r bwriad o arddangos y gwaith sydd yn cael ei gyflawni i gynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r strwythurau newydd sydd yn cael eu mewnosod ar lwybrau yn cynnwys gwelliannau megis giatiau newydd (i gymryd lle camfeydd), ac arwyddion i hwyluso defnydd. Yn ogystal mae'r nifer o weithrediadau i gynnal llwybrau yn cael eu hadrodd, mae'r rhain yn weithrediadau ar wahân ac yn ogystal â gwaith cynnal megis torri tyfiant arwyneb, gwella cyflwr arwyneb ac yn y blaen. Mae'r ystadegau yn parhau i ddangos amrywiaeth o fis i fis ar y ddau fesur. Dengys yr ystadegau fod cynnydd yn y gwaith cynnal gyda nifer yn y strwythurau newydd yn parhau yn weddol sefydlog, gwelwyd cynnydd yn nifer ystrwythurau a gwaith cynnal yn mis Mawrth yn sgil cwblhau prosiectau grant gwella mynediad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.



Traffig, Prosiectau a Llwybrau


T&P3 - Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir

Enw Rheolwr : - Iwan ap Trefor

Pwrpas y Gwasanaeth:- Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

Sylwadau

Mae hwn yn fesurydd newydd sy'n ymgais i fonitro niferoedd defnyddwyr ar rai o brif lwybrau ar rwydwaith y sir, gan ddefnyddio teclynnau monitro sydd wedi eu gosod mewn lleoliadau penodol.
Mae'r rhwydwaith llwybrau yn adnodd gwych ar gyfer gweithgareddau awyr agored sydd yn dda i llesiant ein trigolion o safbwynt iechyd meddyliol a chorfforol.
Yn ogystal a buddion iechyd, maent hefyd yn cynnig cyfleoedd teithio, am resymau ddydd i ddydd, mewn dulliau yn hytrach na'r car sydd yn cefnogi nifer o uchelgeisiau a amcanion strategol i leihau effaith ar yr hinsawdd ac ar faterion ymarferol fel tagfeydd traffig a phroblemau parcio.
Mae'r data cychwynnol yn seiliedig ar niferoedd defnyddwyr sydd ar gael mewn 8 lleoliad ar Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd. Ein bwriad fydd ehangu'r lleoliadau wrth i ddata monitro ddod ar gael ar draws gweddill y rhwydwaith llwybrau.
Mae'r lleoliadau presennol yn adrodd ar nifer defnyddwyr llwybr ym Morfa Mawr ger Aberdaron; Rhiw ym Mhen Llŷn; Cerrig y Defaid ym Llanbedrog; Dinas Dinlle; Faenol rhwng Y Felinheli a Bangor; Penrhyn ar gyrion Bangor i gyfeiriad Abergwyngregyn; Eglwys Llanfihangel yn ardal Ardudwy; Pont Coronation yn Llanfair ger Harlech a Fairbourne yn ne Meirionnydd.
O edrych yn ôl ar y data ar gyfer 2025/6 mae'r llwybrau sydd ger cyrchfannau poblogaidd fel Dinas Dinlle a Fairbourne wedi gweld nifer sylweddol o ddefnyddwyr, gyda lleoliadau fel Llanbedrog, Penrhyn a'r Faenol hefyd yn gweld niferoedd sylweddol.
Fel y disgwylir, mae'r niferoedd yn gyffredinol ar eu huchaf yn ystod misoedd yr haf. Er hyn, mae rasys fel yr 'ultra' yn cyfrannu at gynnydd mewn defnyddwyr yn ystod y digwyddiadau o'r fath.
Bydd yr wybodaeth gychwynnol yma yn cynnig data defnyddiol i allu cymharu a monitro defnydd i'r dyfodol.



Trafnidiaeth Cyhoeddus

TC1 - Canran o siwrneiau bws lleol sydd yn cyrraedd ar amser (hyd at 1 munud un gynnar/5 munud yn hwyr)

Enw Rheolwr: Rhian Wyn Williams

Pwrpas y Gwasanaeth: Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

Sylwadau

Mae Cyngor Gwynedd drwy gyd-weithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru, wedi bod yn adolygu rhwydwaith bysus cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cael ei wneud ar sail ardal wrth ardal ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau bellach.
Bwriad yr adolygiad oedd:
- Optimeiddio adnoddau i wneud y cyfleoedd teithio yn fwy deniadol i'r cyhoedd (sy'n cynnwys cwsmeriaid newydd posib yn ogystal a'r rhai sydd eisoes yn teithio mewn ymdrech i wneud gwasanaethau yn gadarnhaol o ran yr amgylchedd ac yn ariannol gynaliadwy)
- Amserlenni hawdd i'w ddeall
- Darparu dull tocynnau mwy teg ledled Gwynedd

Mae hyn wedi arwain at, ar y cyfan, adborth cadarnhaol a chynnydd yn nifer y teithwyr sy'n argoeli'n dda ar gyfer hyfywdra a chynaladwyedd y gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae hyn mewn hinsawdd lle roedd niferoedd y teithwyr bws ar draws Cymru wedi bod yn gyson neu gostwng, gyda rhesymoli a chwtogi lefelau gwasanaethau bws wedi eu gweithredu mewn ardaloedd eraill o'r wlad. Un rhan o'r gwaith oedd edrych ar ar amserlenni a sicrhau fod amser digonol i'r bysiau deithio ar hyd y llwybr.
Oherwydd newid cytundebol yn y cwmni sy'n dal data amseroedd bysiau, nid oes mynediad i'r amseroedd prydlondeb ar hyn o bryd. Gan nad oes cytundeb rhwng y gweithredwyr a'r Llywodraeth am rannu'r data yma, nid oes gan y Cyngor fynediad i'r data prydlondeb ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i bwyso am fynediad i'r data gan fod hyn yn dystiolaeth bwysig i ni ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau bws lleol. Er nad oes mynediad at ddata perfformiad amserol bysiau trwy Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ond nad yw hyn yn rhwystro delio â chwynion unigol, ac mae swyddogion yn dilyn fyny unrhyw ymholiadau neu gwynion am amseru bysiau ac yn delio gyda'r materion mewn modd amserol i'r cyhoedd.

Dim data ar gael ar hyn o bryd

Trafnidiaeth Cyhoeddus

TC2- Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu

Enw Rheolwr: Rhian Wyn Williams **Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

Sylwadau

Mae yna nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ddefnydd gwasanaethau bws yn gyffredinol. O gymharu mis wrth fis gall hyn gynnwys sawl penwythnos sydd mewn unrhyw un mis a hefyd y tywydd – yn enwedig yn ystod penwythnosau, gŵyl y banc a chyfnodau brig arall. Mae nifer y dysgwyr sydd yn talu i deithio ar fysiau cyhoeddus hefyd yn newid a chael dylanwad. Mae'r canran sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad yn parhau yn galonogol.


Mae ffigyrau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd gyda chyfran o arian grant yn dangos perfformiad cadarnhaol a chynnydd yn nifer y siwrneiau yn y flwyddyn ddiwethaf. O gymharu y sefyllfa yn 2025/26 gyda'r flwyddyn flaenorol, fe welir fod yna gynnydd o 14.7% yng nghyfanswm y siwrneiau dan sylw, i fyny i 1,920,737 o'i gymharu gyda 1,673,164 yn 2024/25 (cynnydd o 247,573 yn y 12 mis).

O fwrw golwg ar niferoedd oedd wedi talu o blith y siwrneiau yma, roedd y ffigwr 4.4% yn is yn 2025/26 ar 1,122,573 o'i gymharu gyda 1,174,302 yn 2024/25 (sef 51,729 yn llai ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf).


O ran y tocyn teithio rhad, roedd 798,164 o deithiau yn defnyddio rheini yn 2025/26, sy'n 36% yn fwy nag yn 2024/25 pan gwelwyd 585,832 o deithiau (212,332 yn fwy yn 2025/26).

Wrth edrych yn benodol ar wasanaeth y Sherpa, gwelwyd cynnydd o 6.6% yn 2025/6 (i 563,783 o siwrneiau) o'i gymharu gyda'r 12 mis blaenorol. Yn benodol yn y misoedd diwethaf ers i ni adrodd, gwelwyd cwymp bychan yn Ionawr (lawr 5% i 23,321) ond fod cynnydd yn Chwefror (i fyny 3% i 25,605) ac eto ym mis Mawrth (cynnydd o 5.6% i 36,831). Dylid nodi fod y tywydd yn dueddol o effeithio ar niferoedd siwrneiau ar wasanaethau fel y Sherpa, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

Nifer teithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu



Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu Cyfnod Ebrill 2025- Mawrth 2026



Busnes - Swyddfa Cefn


B1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir

Enw Rheolwr: Alison Wyn Owen
Pwrpas y Gwasanaeth: Darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Sylwadau

Rydym yn falch o adrodd bod y trosglwyddiad data wedi'i gwblhau ar gyfer Project System Genedlaethol Newydd HMLR, a bydd chwiliadau tir lleol ar gael yn ddigidol i gwsmeriaid o 12/05/2026. Mae Gwynedd ymhlith y cynghorau cyntaf yng ngogledd Cymru i wneud y trosglwyddiad, a'r cyntaf i integreiddio â system IDOX.

Bydd chwiliadau CON29 yn parhau o dan gyfrifoldeb y Cyngor. Er mwyn eu cwblhau, mae angen cydweithrediad ac ymateb gan nifer o wasanaethau ac adrannau eraill, gan ddibynnu ar leoliad y chwiliad, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gan bob un o'r gwasanaethau hyn eu heriau penodol, a gall hyn effeithio ar amseroedd ymateb Pridiannau Tir. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'r gwasanaethau perthnasol er mwyn nodi ffyrdd gwell o ymateb i chwiliadau, gyda'r nod o wella ein hamseroedd ymateb yn barhaus.



Busnes - Swyddfa Cefn

B2 - Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb

Enw Rheolwr: Alison Wyn Owen
Pwrpas y Gwasanaeth: Cefnogi swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, drwy darparu gwasanaeth rheng flaen i ymholiadau cwsmeriaid


Sylwadau

Ers trosglwyddo i'r system ffôn newydd Cisco a mae'r opsiwn llais-bost bellach yn cynnig profiad gwell i gwsmeriaid, gan eu galluogi i adael neges os yw'r llinell yn brysur.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cynnal, ac o bosib wella, ein perfformiad dros yr wythnosau nesaf wrth i aelod newydd o'r tîm feithrin hyder ac wrth i aelod arall ddychwelyd o gyfnod mamolaeth.

Cynyddodd nifer y galwadau o 444 ym mis Chwefror i 763 ym mis Mawrth, sef cynnydd o 319 o alwadau, sy'n cynrychioli cynnydd o 73%. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn y galw, llwyddodd y tîm i gynnal cyfartaledd canran ateb galwadau o 63%.

Roedd y cynnydd yn nifer y galwadau yn bennaf oherwydd diwedd y flwyddyn ariannol, gan olygu bod angen adnewyddu nifer fawr o geisiadau trwyddedu.



Monitro Cyllid

MC - Cyfanswm Bidiau Ariannol a Chymharu gyda Bidiau Llwyddiannus (Data Rheolaethol)


Enw Rheolwr: Dawn Sinclair **Pwrpas y Gwasanaeth:** Cefnogi Gwasanaethau ar draws yr Adran ar faterion monitro cyllid, prosesau caffael a phryun'n ddoeth a systemau TG.

Sylwadau

£21,228 i'w hawlio mis Ebrill

£69,182 i'w hawlio mis Ebrill ac hefyd Mae lot o hwn ar gyfer 2024/2025

Un o'r elfennau mae'r Adran yn rhagori ynddo yw denu grantiau ar gyfer cynlluniau gwelliant ar ein rhwydwaith ffyrdd, llwybrau a'r rhwydwaith 'teithio llesol' aml-ddefnydd, gwaith adweithiol i warchod bywyd gwyllt a'r tirweddau, gwella Hawliau Tramwy, datblygu a chynnal llwybrau arfordir, gwella ansawdd a chyflwr ardaloedd AHNE; rhwydwaith lonydd las; Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau; Ecosystemau Morol; a Thirlun Llŷn. Mae'r Adran yn draddodiadol wedi bod yn llwyddiannus mewn denu grantiau ar gyfer cynlluniau fel gwelliannau ffyrdd a phontydd; llwybrau beicio a llwybrau diogel o fewn ein cymunedau, cynnal a datblygu llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth yn ogystal â chadwraeth a diogelu rhywogaethau a thirlun.



Perfformiad Hyfforddiant Diogelu: Adran Amgylchedd

Mae cyfres o hyfforddiant mandadol sy'n flaenoriaeth corfforaethol y mae'n ofynnol i staff y Cyngor eu cwblhau. Fel Adran, mae negeseuon cyson wedi eu rhannu gyda swyddogion yr Adran i amlygu pwysigrwydd cwblhau'r hyfforddiant mandadol.

Mae'r isod yn amlinellu y sefyllfa diweddaraf o ran perfformiad staff swyddfa yr Adran Amgylchedd o ran hyfforddiant **'Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol' (VAWDASV)** a **'Diogelu'**.

Mae **99.5% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Trais a Cham-drin yn Erbyn Merched (VAWDASV)**, gydag un staff swyddfa sydd heb gwblhau eto yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Mae **98.5% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu**, gydag un o blith y tri aelod o staff sydd heb gwblhau hyd yma, yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Mae natur gwaith rhai Gwasanaethau'r Adran yn golygu nad oes gan aelodau o staff rheng-flaen fynediad i gyfrifiadur yn rhinwedd eu swydd. Golyga hynny nad oes ganddynt fynediad hwylus i allu cwblhau hyfforddiant trwy'r porth hyfforddi. Teimlwyd y byddai darparu'r hyfforddiant ar ffurf grŵp yn gyfle i unigolion ofyn cwestiynau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cynnwys yn llawn. O ganlyniad, roedd angen addasu'r hyfforddiant er mwyn sicrhau byddai modd ei arddangos ar ffurf fideo, a'i fod hefyd yn fwy perthnasol i staff rheng-flaen.

Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i'r gweithlu Casglu a Thrin Gwastraff lle mae oddeutu 200 o aelodau staff ac rydym wedi cydweithio gyda Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol sydd wedi cydlynu fideo fydd yn hwyluso cyflwyno'r hyfforddiant i'r staff rheng flaen.

Mae sgriniau pwrpasol wedi eu harchebu ar gyfer y depos a threfniadau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant ar ffurf fideo i'r staff Casglu a Thrin Gwastraff bellach wedi cychwyn. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn sicrhau y bydd cynnydd cadarnhaol yn y staff rheng-flaen fydd yn cwblhau'r hyfforddiant, ac y bydd hynny i'w weld yn yr adroddiad pan fyddwn yn cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu nesaf.

Atodiad C - Risgiau posib a dulliau ymateb Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Risg	Effaith bosibl	Mesurau lliniaru
1. Gofynion pellach yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd	• Angen ymgymryd â rhagor o waith er mwyn diwygio'r Cynllun a'r rhaglen waith. • Rhaglen yn llithro.	Monitro gwaith sy'n cael ei wneud o ran deddfwriaethau a chanllawiau newydd fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb mor gynnar ac effeithiol a phosib i unrhyw newid.
2. Llwyth gwaith trymach na'r disgwyl	• Rhaglen yn llithro. • Methu adrodd i bwyllgorau mewn da bryd.	• Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. • Sicrhau ein bod yn ystyried faint o amser a gymerir i wneud pob agwedd o'r gwaith. • Ystyried adnoddau ychwanegol.
3. Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori	• Rhaglen yn llithro.	• Hyblygrwydd yn yr amserlen. • Sicrhau ein bod yn ymgynghori yn fuan (cyn y cyfnodau ymgynghori ffurfiol) gyda chyrff penodol.
4. Diffyg consensws gwleidyddol	• Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun. • Gwrthdaro yn tanseilio'r hyn sydd yn cael ei nodi yn y Cynllun.	Ceisio datrys cymaint o wrthdaro a phosib yng nghyfarfodydd y Gweithgor Polisi Cynllunio a drwy drafod gydag Aelodau blaengar e.e. arweinyddion portfolio.
5. Methu adrodd i bwyllgor ar adeg briodol	• Rhaglen yn llithro	• Trafod anghenion y broses gyda threfnwyr rhaglen flynyddol pwyllgorau mewn da bryd

Atodiad C - Risgiau posib a dulliau ymateb Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Risg	Effaith bosibl	Mesurau lliniaru
6. Diffyg consensws rhwng gwahanol adrannau o'r Cynghorau	Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun.	• Sicrhau ein bod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cyngor • Sicrhau bod gweithdrefnau cyd drafod mewnol effeithiol mewn lle o ran y Cynllun.
7. Oedi gyda chyfieithu/proses argraffu	Rhaglen yn llithro. •	• Defnyddio cyfieithwyr allanol. • Rhannu'r gwaith cyfieithu i wahanol unigolion/ gwmnïoedd. • Ystyried adnoddau ychwanegol.
8. Diffyg arian ar gael drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun	• Methu ariannu tasgau gwaith penodol a phwysig e.e. fel rhan o'r sail tystiolaeth. • • Rhaglen yn llithro.	• Monitro cyson er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posib.
9. Newid/Colli staff	• Colli capasiti a sgiliau. • Mwy o bwysau ar y swyddogion eraill. • Rhaglen yn llithro.	• Ystyried adnoddau ychwanegol.
10. Diffyg arbenigedd	• Safon y gwaith yn is. • Methu adnabod gwendidau a nodi awgrymiadau wrth wirio gwaith gan ymgynghorwyr. • Problemau o ran sicrhau 'cadernid' y Cynllun.	• Hyfforddi staff penodol i arbenigo mewn gwahanol feysydd. • Defnyddio ymgynghorwyr arbenigol lle dydi'r arbenigedd ddim oddi fewn y gwasanaeth

Atodiad C - Risgiau posib a dulliau ymateb Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Risg	Effaith bosibl	Mesurau lliniaru
11. PCAC yn methu cwrdd â'r amserlen/targedau	• Oedi o ran cynnal yr ymchwiliad ac/neu o ran derbyn yr adroddiad.	• Sicrhau cyswllt agos gyda'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn sicrhau proses mor hawdd â phosib. Bydd hyn hefyd yn fodd o gael rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau.
12. Cynllun yn methu y prawf 'cadernid'	• Ni all y Cynllun gael ei fabwysiadu heb orfod ymgymryd â gwaith sylweddol pellach.	Sicrhau bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau, ynghyd â'r holl brofion cadernid penodol.
13. Her gyfreithiol	• Diddymu'r CDLl (neu rannau ohono) a fabwysiadwyd. • Pwysau gwaith ychwanegol.	Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau a.y.b.
14. Etholiadau	• Rhaglen yn llithro. • Aelodau newydd â barn wahanol ynglŷn â chynnwys y Cynllun – blaenoriaethau yn newid.	Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.
15. Problemau gyda gwaith T.G. / Problemau o ran gwaith GIS	Rhaglen yn llithro.	• Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. • Sicrhau bod Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion ac yn rhaglennu amser ar ein cyfer. • Prynu meddalwedd bwrpasol.

Atodiad C - Risgiau posib a dulliau ymateb Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

Risg	Effaith bosibl	Mesurau lliniaru
16. Canlyniadau'r AC/AAS yn amlinellu problem(au) annisgwyl.	• Llwyth gwaith ychwanegol. • Rhaglen yn llithro.	• Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath. • Ystyried adnoddau ychwanegol.
17. Cyrff ymgynghori'n methu rhoi sylwadau mor gyflym â'r disgwyl.	Rhaglen yn llithro.	• Sicrhau bod grwpiau penodol yn cael eu hymgynghori a hwy yn fuan o fewn unrhyw gam perthnasol yn y broses. • Ceisio ymgynghori ar adegau o'r flwyddyn ble mae'r mwyafrif o bobl yn debygol o fod yn eu gwaith e.e. nid yn ystod mis Awst neu dros y Nadolig.
18. Derbyn gwybodaeth hwyr arwyddocaol.	• Rhaglen yn llithro. • Pwysau gwaith ychwanegol.	Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath.
19. Prosiectau isadeiledd mawr annisgwyl yn dod yn ei flaen	• Rhaglen yn llithro. • Pwysau gwaith ychwanegol.	
20. Ymgynghoriadau - ddim yn ymgynghori yn y dull gorau i gwrdd â'r bobl cywir	• Ddim yn cael ymatebion i gynnwys y dogfennau gan groes doriad o'r gymuned • Rhaglen yn llithro oherwydd angen mwy o waith ymgynghori • Pwysau gwaith ychwanegol	Ystyried dulliau gwahanol o ymgynghori i gyrraedd y bobol sydd ddim wedi bod yn ymateb. Gwneud asesiad yn dilyn y cyfnodau ymgynghoriad i weld pwy sydd wedi ymateb.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu
DYDDIAD	11 Mehefin, 2026
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC 2025/26
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
AELOD CABINET	Y Cynghorydd. June Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Cyflwyno diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad 2025/26 o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma 'rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn 2025/26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac 'rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a Chyfiawnhad

2.2.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir ar gyfer prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ble mae'r Adran yn arwain i'w gweld yn Atodiad 1. Gwelir fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da ac wedi cwblhau'r prif gerrig milltir y prosiectau o fewn y Cynllun.

- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir**

Drwy dderbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae gan Llywodraeth Cymru rydym wedi gwella ansawdd a hygyrchedd 29 man/meysydd chwarae er budd plant a phobl ifanc y sir drwy unai wneud gwelliannau neu osod offer newydd.

- **Gweithredu ar risgiau llifogydd**

Mae'r Strategaeth Llifogydd Lleol wedi ei gyflwyno i sylw Llywodraeth Cymru a bu i ni dderbyn eu sylwadau ar y cynnwys. Disgwylir cadarnhad ffurfiol i'w gymeradwyo yn chwarter cyntaf o'r flwyddyn.

- **Cymunedau Glân a Thaclus**

Mae Glanhawyr Tref wedi eu penodi yng Nghaernarfon a Bangor sydd wedi bod yn llwyddiant mawr. Byddwn yn ymestyn y trefniadau i dref Pwllheli a Porthmadog ar gyfer haf 2026. Drwy bwrcasu peiriannau ysgubo ffordd pwrpasol mae'r gwasanaeth wedi moderneiddio ei fflyd glanhau a thrwy hynny yn lleihau dibyniaeth ar hurio cerbydau.

2.2.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran (Mesurau Perfformiad)

Mae mesurau perfformiad yr Adran i'w gweld yn Atodiad 2. Fe welir bod yma 29 mesur sydd yn adlewyrchu pwrpas gwasanaethau'r Adran.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac yn dilyn ein cyfarfod fis Mai adroddir bod 75.9% o'r mesurau yn wyrdd. Mae hyn yn gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe welwch fod 24.1% wedi eu cofnodi mewn lliw ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Da cofnodi nad oes yr un mesur wedi ei gofnodi yn goch ar ddiwedd y flwyddyn.

Dyma drosolwg ar rai o fesurau'r Adran.

Mesurau Corfforaethol/Adrannol

Mae rhain yn edrych ar berfformiad yr Adran o ran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Teitlau Mandadol, Hunanasesiad Iaith a chyfradd salwch yr Adran. Dylid nodi bod ein canran ymateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar ddiwedd 2025/26 yn 97.8% sydd yn gynnydd sylweddol ers llynedd ac yn cyfrannu at gyfradd ymateb y Cyngor. Mae gwaith yr adran i annog staff i gwblhau'r teitlau mandadol hefyd i'w ganmol gan bo naid sylweddol wedi bod ers dechrau'r flwyddyn. Mae dal gwaith i'w wneud ond bydd angen parhau i wella er mwyn cyrraedd cyfraddau uwch gan ganolbwyntio ar y modiwl Diogelu. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r Hyfforddwr Diogelu Corfforaethol i wneud hyn.

Cynnal Priffyrdd

Mae'r gwasanaeth yn delio gyda diffygion ar ein ffyrdd yn dda iawn ond yn cydnabod bod angen adolygu ein trefniadau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gofnodi yn gywir ar ein systemau i sicrhau data dibynadwy.

Goleuo Stryd

Mae'r gwasanaeth Goleuo Stryd yn parhau i ymateb i ddiffygion o fewn eu targed amser o 5 diwrnod, ac yn wir yn ymateb iddynt ar gyfartaledd o fewn 2.8 diwrnod. Fodd bynnag, os oes nam ar ased sydd yn berchen i'r Grid Cenedlaethol, mae ganddynt 20 diwrnod gwaith i ymateb sydd tu hwnt i'n rheolaeth ni. Gall hyn ar adegau achosi rhwystredigaeth o ran y gwasanaeth i'r cwsmer.

Gwasanaeth Fflyd

Mae'r gwasanaeth yn perfformio yn dda iawn ac mae'r gwaith ar y system fflyd newydd wedi profi yn llwyddiant mawr. Mae'r gwaith o drosglwyddo fflyd y Cyngor i gerbydau "gwyrdd" yn parhau gyda 89 o geir neu faniau yn rhai trydan neu hybrid erbyn diwedd y flwyddyn yma. Yn ôl adroddiad gan y Gwasanaeth Ynni, Llywodraeth Cymru - Gwynedd oedd yr ail ymhlith awdurdodau gwledig Gwynedd o ran nifer y cerbydau "gwyrdd" oedd ganddynt.

Gwasanaeth Edrychiad Stryd a TCC

Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd ac yn sgil hynny yn treialu system newydd ar gyfer rheoli casgliadau biniau cyhoeddus. Mae lleoliadau biniau wedi eu mapio yn ddigidol a bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu ar gynnwys a chyflwr y biniau sy'n cael eu gwagio. Bydd y data yma yn helpu i raglennu gwaith cynnal a chadw a blaenoriaethu lleoliadau biniau yn y dyfodol.

Toiledau Cyhoeddus

Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ostwng y nifer dyddiau maent yn gymryd i ymateb i ymholiad. Ar hyd y flwyddyn roedd y gyfartaledd yn 20 dydd gwaith, ond erbyn diwedd y flwyddyn roedd nifer y dyddiau cyfartalog wedi gostwng i 4 dydd. Bydd y gwaith yma yn parhau ac yn edrych ar ffyrdd eraill i helpu cau ceisiadau yn amserol i'r cwsmer.

Ymgynghoriaeth Gwynedd

Mae YGC yn perfformio'n arbennig o dda ar hyn o bryd, gyda 7 o'u 8 mesur perfformiad yn wyrdd. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith caled a safon uchel y tîm wrth gyflawni prosiectau cymhleth a sensitif ar draws y Sir ac oddi allan.

Amlygaf bod YGC bellach yn gweithio ar draws Cymru gyfan gyda gwaith rheolaidd yn ei le i sawl Awdurdod Lleol. Mae'r rhaglen waith yn parhau'n iach ac uchelgeisiol, gyda nifer sylweddol o brosiectau llifogydd, peirianneg sifil ac amgylcheddol ar y gweill.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau craidd megis rheoli perygl llifogydd, dylunio seilwaith, arolygon tir a gwaith adeiladu, mae YGC bellach yn cynnig ystod eang o wasanaethau ymgynghorol arbenigol sy'n denu cleientiaid nid yn unig yng Ngwynedd ond ar draws Cymru gyfan. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus, cymunedau lleol a phartneriaid rhanbarthol i ddarparu atebion cynaliadwy sy'n gwella diogelwch, gwydnwch ac ansawdd bywyd.

Mae arbenigedd YGC mewn rheoli prosiectau mawr, ynghyd â'u gallu technegol cryf, yn golygu eu bod yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu seilwaith hanfodol, gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd, a chyflwyno prosiectau sy'n cefnogi nodau ehangach y Cyngor o ran dad garboneiddio, addasu i newid hinsawdd a chynllunio tymor hir.

'Rwyf yn falch o nodi i YGC fod yn parhau i dyfu ei enw da fel tîm o Ymgynghorwyr gyda rhagoriaeth beirianyddol yng Nghymru, gan ddarparu gwasanaeth proffesiynol,

dibynadwy ac arloesol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r sir a thu hwnt. Drwy hyn yr ydym yn sicrhau cyfleon swyddi lleol yma yng Ngwynedd yn y maes ymgynghoriaeth.

2.2.3 Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn dal, ac yn cynnal tair achrediad allweddol sef BSI — ISO 45001 (Iechyd a Diogelwch), ISO 14001 (Amgylcheddol) ac ISO 9001 (Ansawdd) — sy'n sail gadarn i'n gwaith ar draws yr Adran. Mae'r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu gyda'r lefel uchaf o ddiogelwch, rheolaeth amgylcheddol ac ansawdd, ac yn rhoi hyder i'n cleientiaid a'n partneriaid yn y gwasanaeth a ddarperir. Un o ofynion ein gwaith drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Asiantaeth Cefnffyrdd ydyw ein bod yn meddu ac yn cadw yr achrediadau yma.

Yn dilyn yr archwiliadau allanol dros y flwyddyn, gallwn adrodd yn gadarnhaol iawn fod nifer o sylwadau cefnogol wedi'u derbyn gan yr archwilwyr. Yn bwysicaf oll, ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chadw neu gynnal y safonau, gan adlewyrchu gwaith trefnus a phroffesiynol y tîm.

Mae'r canlyniad yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus yr Adran i welliant, tryloywder ac arweinyddiaeth o ran arferion gorau yn y meysydd Iechyd a Diogelwch, Amgylcheddol ac Ansawdd, ac mae'n cefnogi ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws pob maes o'n gwaith.

2.2.4 Cynlluniau Arbedion a Thoriadau

Cyfanswm cynlluniau Arbedion 2025-26 oedd £533,500. Mae'r Adran wedi cyflawni gwerth £212.5k gyda gwerth £130k wedi eu dileu a gwerth £191k yn llithro. Bydd yr Adran yn gweithredu i gyfarch yr arbedion sydd wedi llithro yn ystod 2026-27.

3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei chreu ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**	1. Bydd ein tîm yn adolygu'r stoc gan amlygu'r caeau chwarae delwedd uchel er mwyn ystyried cynllun gweithredu.	1. Gwaith o adolygu stoc wedi digwydd. Cynllun gweithredu bellach ar waith.	1. Ydi
		2. Bid wedi ei gyflwyno am gefnogaeth grant SPF ac sydd wedi derbyn cefnogaeth. Edrych ar ddarparu rhaglen waith fanwl er mwyn sicrhau cyflwyno gwelliannau o fewn amserlen gofynion grant.	2. Wedi derbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae drwy Llywodraeth Cymru er gwella ansawdd a hygyrchedd mannau chwarae a meysydd chwarae. Gwaith wedi digwydd i gyflwyno gwelliannau i 29 o caeau chwarae.	2. Ydi
		3. Adolygu trefn fewnol drwy gyflwyno gwasanaeth cynnal a chadw o gaeau chwarae	3. Elfen ym yn rhan o waith dydd i ddydd erbyn hyn y Tim Tacluso Ardal Ni a Cynnal Tiroedd.	3. Ydi

		4. Parhau i gyd-weithio â Chynghorau Cymuned a Thref fel y gofyn	4. Pan fydd cyfle yn codi byddwn yn cyd-weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref.	4. Ydi

<u>Gwynedd Werdd:</u> Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Adran	**Prosiect**	**Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):**	**Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** 23/10/25	**Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi)
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	**Gweithredu ar risgiau llifogydd**	1. Strategaeth Llifogydd Lleol wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Llywodraeth (disgwyl adborth ar y cynnwys er mwyn cyfarch unrhyw sylw)	1. Adborth wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru sydd yn cadarnhau eu cymeradwyaeth i'r strategaeth ond ymateb ffurfiol heb ei dderbyn eto.	1. Ydi
		2. Gweithredu ar gynllun gwaith sydd ynghlwm â'r Strategaeth Llifogydd Lleol	2. Parhau fel gwaith dydd i ddydd	2. Ydi
		3. Ymateb i unrhyw faterion sydd yn codi yn ystod y flwyddyn sydd mewn perthynas â'r maes llifogydd	3. Dros y chwarter olaf bu i'r gwasanaeth gyflwyno gwybodaeth i'r fforymau ardal er trafod y Strategaeth a'r effeithiau newidiadau yn y	3. Ydi

			Cynllun Traethlun. Y bwriad fydd i drafod goblygiadau unrhyw newidiadau gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref perthnasol. Bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer flwyddyn nesaf.	
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**Cymunedau Glân a Thaclus**	1. Cyflwyno system optimeiddio cylchdeithiau fydd yn sicrhau cylchdeithiau glanhau gwasanaethau biniau stryd effeithiol ac effeithlon. Mae'r buddsoddiad yma yn gysylltiedig â'r targedau toriadau/arbedion a'r sefyllfa gorwariant. Felly, bydd disgwyliad i'r system gyfarch y sefyllfa yn rhannol.	1. Bellach yn edrych ar ddatblygiad mewnol ynghyd â system allanol o'r newydd (sydd yn cael ei defnyddio gan y Gwasanaeth cynnal gaeaf). Un uned wedi ei gosod er gallu mapio'r gylchdaith er adnabod cyfleon effeithlonrwydd.	1. Ydi
		2. Glanhawyr Canol Tref yn weithredol o fewn Arfon a Meirionnydd ac i'w gyflwyno yn Nwyfor. Gwaith monitro effeithlonrwydd ac effaith y trefniant yma i'w gario allan yn ystod y flwyddyn.	2. Glanhawyr trefi bellach yn weithredol. Rydym yn monitro'r budd i'r gwasanaeth ac yr effaith ar edrychiad y trefi.	2. Ydi
		3. Cryfhau perthnasau'r Timau Tacluso drwy gyd-weithio â mudiadau/cymunedau lleol gan roi sylw penodol i ardaloedd agored cyhoeddus.	3. Mae'r Timau Tacluso Ardal Ni yn parhau i gydweithio gyda Cynghorau Cymuned a thref ynghyd â cheisiadau gan aelodau'r Cyngor. Byddwn yn y flwyddyn newydd yn cysylltu gyda Cynghorau Cymuned a Thref er derbyn adborth	3. Ydi

			gennynt am waith y Timau Tacluso.	
		4. Moderneiddio Fflyd Glanhau er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar hurio ynghyd â sicrhau bod y gweithlu â'r cerbydau pwrpasol er cyflawni'r gwaith.	4. Wedi pwrcasu 8 peiriant ysgubo ffordd pwrpasol ac yn edrych ar weddill y fflyd erbyn hyn.	4. Ydi

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD
ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC
2025/26



HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn

2025/26

Mis

Mawrth

Ymlaen i'r dashfwrdd

Nifer Mesurau : 29

Cyfnod Adrodd

31 Mawrth 2026

0 (0.0%)

7 (24.1%)

22 (75.9%)

Crynodeb o'r Prif Negeseuon

- Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor - pob blaenoriaeth wedi ei gwblhau eleni
- Adolygiadau'r Adran - cynnydd wedi digwydd gyda rhain
- Perfformiad yr Adran yn parhau yn galonogol - dim un mesurydd yn goch erbyn diwedd y flwyddyn
- Gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesur bodlonrwydd cwsmer ar gyfer Meysydd/Parciau Chwarae - rhagweld bydd modd adrodd arno gychwyn flwyddyn nesaf
- Mesurydd newydd ar gyfer gwasanaeth Cytundeb yr A55 yn cael ei ddatblygu

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn: 2025/26

Mis diweddaraf: Mawrth

Mis diwethaf: Chwefror

Adrannol

Mis diwethaf: 72.0%

72.5%

PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 8 teitl mandadol (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Mis diwethaf: 97.7%

97.8%

PP-02 : Canran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi ateb o fewn 20 dydd (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Mis diwethaf: 10.78

11.89

PP-03 : Nifer dyddiau salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Mis diwethaf: 97.2%

97.7%

PP-04 : Canran staff gyda Asesiad Iaith (cronnus)

Steffan Jones

Cynnal Priffyrdd

Mis diwethaf: 90.9%

87.9%

PP-05 : Canran diffygion critigol wedi eu gwneud yn saff o fewn 2 awr

Gareth Roberts

Cynnal Priffyrdd

Mis diwethaf: 74.9%

84.1%

PP-06 : Canran diffygion diogelwch wedi eu gwneud yn saff o fewn y targed

Gareth Roberts

Cynnal Priffyrdd

Mis diwethaf: 9.8

3.2

PP-07 : Cyfartaledd dyddiau i ymateb i gŵyn twll mewn ffordd

Adrian Wyn Williams

Cynnal Priffyrdd

Blwyddyn diwethaf: 10.1%

9.7%

PP-08 : Canran ffyrdd Dosbarth A, B a C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)

Ian Morgan

Goleuo Stryd

Mis diwethaf: 2.7

2.8

PP-09 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

Colin Worth

Goleuo Stryd

Mis diwethaf: Ar drac

Ar drac

PP-10 : Defnydd egni lampau stryd

Colin Worth

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn: 2025/26

Mis diweddaraf: Mawrth

Mis diwethaf: Chwefror

Goleuo Stryd

Mis diwethaf 100.0%

100.0%

PP-11 : Canran archwiliadau colofnau wedi eu cwblhau (cronnus)

Colin Worth

Fflyd

Mis diwethaf 97.5%

99.4%

PP-12 : Canran archwiliadau diogelwch rhaglenedig wedi eu cwblhau

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 39.6%

39.6%

PP-13 : Canran ceir a faniau'r Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd"

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 91.1%

86.6%

PP-14 : Canran oriau cynhyrchiol yn y gweithdai

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 84.6%

100.0%

PP-15 : Canran ceisiadau gwaith wedi ateb o fewn 1 awr

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 88.9%

100.0%

PP-16 : Canran cerbydau trwm sydd yn pasio eu prawf MOT

Kev Sheret

Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 0.8

0.7

PP-17 : Nifer achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o boblogaeth Gwynedd

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 1.8

2.3

PP-18 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau i ymholiad Baw Cŵn

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Blwyddyn diwethaf 71.0%

71.3%

PP-19 : Canran Hysbysiadau Cosb Penodedig wedi cael eu talu

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 93

90

PP-20 : Nifer ceisiadau gwaith i'r Tîm Tacluso

Steven Edwards

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn 2025/26

Mis diweddaraf Mawrth

Mis diwethaf Chwefror

Toiledau Cyhoeddus

Mis diwethaf 1.4

4.3

PP-21 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau ymholiad Toiledau Cyhoeddus

Amanda Murray

Meysydd Chwarae

Datblygu Mesur

Amanda Murray

Adeiladau ac Isadeiledd

Mis diwethaf Ar drac

Cwblhawyd

YGC-23 : Cwrdd âtharged ariannol yr Uned Adeiladu

Gareth Lloyd Wright

Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf Ar drac

Cwblhawyd

YGC-24 : Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

Rhys Wynn Williams

Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf 9.4

9.1

YGC-25 : Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

Sion Arwel Jones

Dŵr ac Amgylchedd

Blwyddyn diwethaf 76.2%

82.5%

YGC-26 : Canran yr asedau sydd mewn cyflwr boddhaol neu well

Rob Williams

Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf 77.6%

80.3%

YGC-27 : Canran ceisiadau SDC wedi derbyn penderfyniad o fewn y traged (cronnus)

Rob Williams

Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf Monitro

Monitro

YGC-28 : Cynlluniau Llifogydd wedi eu cwblhau

Rob Williams

Gwasanaeth Dechnegol

Mesur parhaol

90.7%

YGC-29 : Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu well (BCI Cyflwr Derbyniol)

Owen Rhys Jones

Gwasanaeth Dechnegol

Blwyddyn diwethaf 100.0%

100.0%

YGC-30 : Canran o'r archwiliadau pontydd ffyrdd wedi eu cwblhau (cronnus)

Owen Rhys Jones

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

UNED REOLI - STEFFAN JONES

Blwyddyn

2025/26


Mis

Mawrth

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 8 teitl mandadol

